



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Gwasanaethau gofal sylfaenol – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 827A2018-19



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith hwn oedd Philip Jones.

# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer gofal sylfaenol ynghyd ag arweinyddiaeth gadarn a goruchwyliaeth o glystyrau, ond mae adferiad ariannol a gofal eilaidd yn tynnu'r pwyslais oddi ar gynllunio gofal sylfaenol ac nid yw perfformiad yn gryf.

## Adroddiad cryno

|                   |   |
|-------------------|---|
| Cefndir           | 4 |
| Prif ganfyddiadau | 8 |
| Argymhellion      | 9 |

## Adroddiad manwl

**Cynllunio strategol:** Mae'r strategaeth gofal sylfaenol leol yn adlewyrchu'r cynllun cenedlaethol ond mae blaenoriaethau eraill yn amharu ar gyflawniad 10

**Buddsoddiad:** Mae gan y Bwrdd Iechyd rai enghreifftiau o symud adnoddau yn agosach at adref ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'r buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol a cheir pryderon ynghylch diffyg cyllid parhaus i gynnal prosiectau llwyddiannus. 17

**Gweithlu:** Mae cynaliadwyedd practisau wedi'i reoli'n dda er bod bylchau mewn data staffio yn llesteirio prosesau cynllunio'r gweithlu, ac mae diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn rhwystro datblygiad timau amlddisgyblaeth 24

**Goruchwyliaeth:** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau arweinyddiaeth cryf a goruchwyliaeth glir o glystyrau ond mae cyfyngiadau data yn effeithio ar brosesau monitro perfformiad a cheir lle i ganolbwyntio'n fwy ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd 30

**Perfformiad a monitro:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud rhywfaint o gynnydd wrth gyflawni ei gynlluniau ond nid yw bob amser yn perfformio'n gryf ac mae nifer o heriau anodd yn parhau 34

## Atodiadau

|                                 |    |
|---------------------------------|----|
| Atodiad 1 – dulliau             | 45 |
| Atodiad 2 – management response | 46 |


# Adroddiad cryno

## Cefndir

- 1 Y diffiniad o ofal sylfaenol yn y [cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol](#)<sup>1</sup> yw: 'Mae a wnelo gofal sylfaenol â'r gwasanaethau hynny sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf, ddydd neu nos, ar gyfer mwy na 90% o gysylltiad pobl â'r GIG yng Nghymru. Mae ymarfer cyffredinol yn un o elfennau craidd gofal sylfaenol: ond nid dyma'r unig elfen – mae gofal sylfaenol yn cwmpasu llawer mwy o wasanaethau iechyd, gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg. Hefyd – yn bwysig – mae'n ymwneud â chydgyssylltu mynediad i bobl at yr amrywiaeth eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a lles.'
- 2 Mae [Arddangosyn 1](#) yn dangos y swyddogaeth bwysig sydd gan ofal sylfaenol yng Nghymru.


### Arddangosyn 1: pam mae gofal sylfaenol yn bwysig yng Nghymru?

#### First point of contact




Primary care is the first port of call for the majority of people who use health services.

#### Spending on primary care




In 2016-17, the NHS in Wales spent £1.39 billion on primary care, which is around a fifth of the total NHS spending in Wales.

#### Prevention and early intervention



Primary care is also important because of its focus on promoting well-being, early intervention and preventing people's conditions from getting worse.

#### Coordinating care



Primary care plays an important role in co-ordinating people's care, acting as a gateway to many other services.

<sup>1</sup> Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018 Llywodraeth Cymru. Chwefror 2015.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru. Sylwer: Nid yw byrddau iechyd yn categoreiddio gwariant gofal sylfaenol mewn modd cyson. Felly, mae'n debygol nad yw'r £1.39 biliwn yng nghyfrifon y GIG yn cynrychioli cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol.

- 3 Mae Cymru wedi bod â chynlluniau ers blynyddoedd lawer sy'n pwysleisio pwysigrwydd gofal sylfaenol. Nod y cynlluniau yw cyflawni cydbwysedd yn y system ofal trwy symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ceisio datblygu 'model cymdeithasol' sy'n hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol, yn hytrach na chadw at absenoldeb salwch yn unig. Yr egwyddorion craidd yn y cynllun yw: cynllunio gofal yn lleol; gwella mynediad ac ansawdd; mynediad teg; gweithlu lleol medrus; ac arweinyddiaeth gadarn.
- 4 Yn y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a fframwaith cynllunio GIG Cymru, disgwylir i fyrddau iechyd nodi cynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol yn rhan o'u cynllun tymor canolig integredig. Dylai pob cynllun egluro sut y bydd y bwrdd iechyd yn datblygu capasiti a gallu gwasanaethau gofal sylfaenol.
- 5 Er mwyn cefnogi gweithrediad y cynllun cenedlaethol, cyhoeddodd GIG Cymru gynllun gweithlu<sup>2</sup>. Disgwylir i fyrddau iechyd rhoi ar waith gamau i sicrhau, rheoli a chefnogi gweithlu gofal sylfaenol cynaliadwy wedi'i lywio gan anghenion y boblogaeth leol a gan egwyddorion gofal iechyd doeth.
- 6 [Clystyrau gofal sylfaenol](#) yw'r prif ddull o gynllunio gwasanaethau ar lefel gymunedol ac fe'u sefydlwyd yn gyntaf yn 2009<sup>3</sup>. Clystyrau yw grwpiau o bractisau meddygon teulu cyfagos, gwasanaethau gofal sylfaenol eraill a sefydliadau partner, fel y gwasanaeth ambiwlans, cynghorau a'r trydydd sector. Ceir 64 o glystyrau (a elwir hefyd yn rhwydweithiau gofal cymdogaeth) yng Nghymru. Eu swyddogaeth yw cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau lleol. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd flaenoriaethu datblygiad cyflym y clystyrau yn eu hardal.
- 7 Er mwyn cefnogi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol ac annog arloesi, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gronfa gofal sylfaenol genedlaethol yn 2015-16. Ac yn 2016-17, roedd cyfanswm £41 miliwn yn y gronfa. Rhoddwyd £10 miliwn i ddatblygu'r clwstr a rhoddwyd £3.8 miliwn i fyrddau iechyd ar gyfer prosiectau pennu cyfeiriad ac ysgogi arloesi, sy'n ceisio profi elfennau o'r cynllun gofal sylfaenol. Mae'r prosiectau a ariannwyd yn y modd hwn wedi creu ffyrdd newydd o weithio sydd wedi'u casglu ym Model Gofal Sylfaenol Cymru<sup>4</sup>.

<sup>2</sup> GIG Cymru. Gweithlu Gofal Sylfaenol Wedi'i Gynllunio i Gymru: Dull a chamau datblygu i'w cymryd i gefnogi'r cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol yng Nghymru hyd at 2018. Gorffennaf 2015.

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru. Pennu'r Cyfeiriad: Rhaglen Gyflawni Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cynradd a Chymunedol. 2009.

<sup>4</sup><http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/ysgogi-arloesi>

- 8 Ers cyhoeddi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn 2014, bu nifer o ddatblygiadau. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru [adroddiad](#) yn dilyn ei ymchwiliad i glystyrau<sup>5</sup>. Nododd yr adroddiad rai enghreifftiau nodedig o gynnydd, ond daw i'r casgliad fod angen newid mawr pwysig er mwyn i glystyrau gael effaith sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi'r dull clystyrau trwy ei rhaglen lywodraethu<sup>6</sup>.
- 9 Fodd bynnag, wrth i fyrddau iechyd gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ym maes gofal sylfaenol, bu anawsterau wrth recriwtio a chadw meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill. Er y bu llwyddiant yn ddiweddar wrth recriwtio hyfforddeion meddyg teulu<sup>7</sup>, mewn llawer o ardaloedd mae mwy o bartneriaid meddygon teulu yn ymddeol a cheir anawsterau arbennig wrth recriwtio mewn ardaloedd gwledig.
- 10 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru<sup>8</sup> trwy gyflwyno cronfa drawsnewid gwerth £100 miliwn. Caiff ei defnyddio i wella iechyd y boblogaeth, ysgogi integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal, datblygu gofal sylfaenol, darparu gofal yn nes at gartrefi, a thrawsnewid gwasanaethau ysbyty.
- 11 Mae'n amserol i'r Archwilydd Cyffredinol adolygu gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad cenedlaethol ynghylch gofal sylfaenol eleni. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddwyd [Darlun o ofal cymdeithasol yng Nghymru](#). Mae hyn yn darparu cipolwg ffeithiol o ofal sylfaenol yng Nghymru ac yn cynnwys gwybodaeth gefndirol nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Ac ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd [Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau](#).
- 12 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) a wnaed rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018. Ystyriwyd a yw'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i gyflawni'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a nodir yn y cynllun cenedlaethol. Mae [Atodiad 1](#) yn dangos ein dulliau. Canolbwyntiodd y gwaith yn benodol ar:
- **Cynllunio strategol:** A yw'r Bwrdd Iechyd yn ysgogi gweithrediad y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol mewn modd effeithiol ar lefel leol?
  - **Buddsoddiad:** A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei gyllid i gefnogi trawsnewidiad gofal sylfaenol?

<sup>5</sup> Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymchwiliad i Ofal Sylfaenol: Clystyrau. Hydref 2017.

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru. Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Medi 2017.

<sup>7</sup> Dywedodd Llywodraeth Cymru fod 91% o leoedd hyfforddi i feddygon teulu wedi'u llenwi yng Nghymru yn 2017. 16 Hydref 2017. <http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/gprecruitnew/?lang=cy>

<sup>8</sup> Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru. Adroddiad Terfynol. Ionawr 2018.

- **Gweithlu:** A yw'r Bwrdd lechyd mewn sefyllfa dda i gyflawni agweddau allweddol ar y cynllun cenedlaethol ar gyfer gweithlu gofal sylfaenol?
- **Goruchwyliaeth ac arweiniad:** A oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau goruchwyllo ac arwain effeithiol sy'n cefnogi trawsnewidiad gofal sylfaenol?
- **Perfformiad a monitro:** A yw'r Bwrdd lechyd yn monitro'i berfformiad a'i gynnydd yn effeithiol ac yn gweithredu ei gynllun gofal sylfaenol?

## Prif ganfyddiadau

- 13 Y casgliad cyffredinol yw bod gan y Bwrdd lechyd gynlluniau clir ar gyfer gofal sylfaenol ynghyd ag arweinyddiaeth gadarn a goruchwyliaeth o glystyrau, ond mae adfer ariannol a gofal eilaidd yn tynnu'r pwyslais oddi ar gynllunio gofal sylfaenol ac nid yw perfformiad yn gryf.
- 14 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi ein canfyddiadau allweddol yn fanylach.

### Arddangosyn 2: ein prif ganfyddiadau

Tabl sy'n rhoi manylion ein prif ganfyddiadau.

| Ein prif ganfyddiadau   |
|---|
| <p><b>Cynllunio strategol:</b> Mae'r strategaeth gofal sylfaenol leol yn adlewyrchu'r cynllun cenedlaethol ond mae blaenoriaethau eraill yn amharu ar gyflawniad</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol er bod blaenoriaethau eraill yn amharu ar gyflymder y cyflawniad.</li> <li>• Mae cynlluniau clwstr yn adlewyrchu cynlluniau strategol ehangach ond mae clystyrau yn rhwystredig oherwydd na allant gyflwyno prosiectau treialu yn y brif ffrwd.</li> </ul>  |
| <p><b>Buddsoddiad:</b> Mae gan y Bwrdd lechyd rai enghreifftiau o symud adnoddau yn agosach at adref ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'r buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol a cheir pryderon ynghylch diffyg cyllid parhaus i gynnal prosiectau llwyddiannus.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae fformat y cyfrifon yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir fuddsoddiad cyffredinol y Bwrdd lechyd mewn gofal sylfaenol.</li> <li>• Gall y Bwrdd lechyd nodi rhai enghreifftiau o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol ac mae wedi sefydlu dull o oruchwyllo symudiad adnoddau a buddsoddiad.</li> <li>• Mae'r Bwrdd lechyd yn monitro gwariant clystyrau fel mater o drefn ond mae arweinwyr clystyrau yn poeni'n fawr am y diffyg cyllid sy'n parhau ar gyfer trawsnewid gofal sylfaenol.</li> <li>• Mae datblygu strategaeth ystadau yn cysylltu'n glir â'r Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol sy'n cynnwys blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer adeiladau gofal sylfaenol ac anghenion TGCh.</li> </ul> |
| <p><b>Gweithlu:</b> Mae cynaliadwyedd practisau wedi'i reoli'n dda er bod bylchau mewn data staffio yn llesteirio prosesau cynllunio'r gweithlu, ac mae diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn rhwystro datblygiad timau amlddisgyblaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Bwrdd lechyd fylchau yn y data staffio a fydd yn llesteirio ei ymdrechion i gynllunio'r gweithlu y bydd ei angen yn y dyfodol.</li> </ul>  |

### Ein prif ganfyddiadau

- Mae'r Bwrdd lechyd mewn cysylltiad rheolaidd â phractisau ac mae'n monitro eu cynaliadwyedd, ac mae un practis a reolir yn uniongyrchol
- Mae'r Bwrdd lechyd yn mynd ati i weithredu timau gofal sylfaenol amlbroffesiynol ond ceir diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, sy'n rhwystro datblygiad pellach.

### **Goruchwyliaeth: Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau arweinyddiaeth cryf a goruchwyliaeth glir o glystyrau ond mae cyfyngiadau data yn effeithio ar brosesau monitro perfformiad a cheir lle i ganolbwyntio'n fwy ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd**

- Mae'r Prif Weithredwr a'r Is-gadeirydd yn eiriolwyr cryf dros Fodel Gofal Sylfaenol Cymru a cheir goruchwyliaeth glir o glystyrau a chynaliadwyedd practisau meddygon teulu.
- Ceir cydnabyddiaeth y bydd angen i'r Bwrdd ganolbwyntio'n fwy ar ofal sylfaenol, ac er bod dangosfwrdd o ddangosyddion yn ei gwneud yn bosibl i fonitro perfformiad gofal sylfaenol, mae wedi'i lesteirio gan anawsterau wrth gael y data perthnasol.
- Mae clystyrau yn ystyried bod cymorth y Bwrdd lechyd yn effeithiol ar y cyfan er bod meddygon teulu yn ei chael yn anodd canolbwyntio ar gynllunio clystyrau.

### **Perfformiad: Mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud rhywfaint o gynnydd wrth gyflawni ei gynlluniau ond nid yw bob amser yn perfformio'n gryf ac mae nifer o heriau anodd yn parhau**

- Mae perfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd cystal â chyfartaledd Cymru neu'n is na'r cyfartaledd mewn nifer o fesurau allweddol.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud rhywfaint o gynnydd wrth gyflawni ei gynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol, ond mae angen iddo fynd i'r afael â rhai heriau anodd.

## Argymhellion

- 15 O ganlyniad i'r gwaith hwn rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a nodir yn [Arddangosyn 3](#).

### Arddangosyn 3: argymhellion

Tabl yn amlinellu ein hargymhellion i'r Bwrdd lechyd.

### Argymhellion

#### Cynllunio strategol

- A1 Nid yw cynlluniau'r Bwrdd lechyd ar gyfer gofal sylfaenol wedi'u hategu gan ddadansoddiad ariannol manwl, felly nid yw'n glir sut y caiff gweithrediad y cynlluniau ei ariannu. Felly dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu dadansoddiad ariannol manwl o gost i gefnogi ei gynlluniau gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod ei gynlluniau yn fforddiadwy a nodi sut y bydd yn ariannu unrhyw newidiadau a gynlluniwyd.

#### Clystyrau gofal sylfaenol

- A2 Canfuwyd amrywiaeth o ran aeddfedrwydd clystyrau gofal sylfaenol, a lle i wella arweinyddiaeth/prosesau caffael/ac ati. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- a. adolygu aeddfedrwydd cymharol clystyrau, er mwyn datblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth ar gyfer clystyrau lle bo angen; a



## Argymhellion

- b. sicrhau bod arweinwyr yr holl glystyrau yn mynd ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus.

### Buddsoddi mewn gofal sylfaenol

- A3 Ni all y Bwrdd lechyd ddangos symudiad adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol a chymunedol, ac eithrio newidiadau bach i wasanaethau. Dylai'r Bwrdd lechyd fabwysiadu'r fframwaith ariannol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar i gefnogi gweithrediad ei gynlluniau gofal sylfaenol a thrawsnewid gwasanaethau ehangach.

### Goruchwylio gofal sylfaenol

- A4 Canfuwyd bod lle i wella proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd lechyd, yn arbennig ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Felly dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer codi proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd lechyd. Gallai camau gweithredu gynnwys sicrhau bod gofal sylfaenol yn eitem sefydlog ar agendâu'r Bwrdd.
- A5 Canfuwyd bod lle hefyd i wella sut y caiff perfformiad gofal sylfaenol ei fonitro a'i adrodd ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- a. sicrhau bod cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a'r pwyllgor yn ymdrin yn ddigonol â gofal sylfaenol; a
  - b. sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn rhoi digon o sylw ar gynnydd a chyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well profiadau a chanlyniadau ar gyfer cleifion.

### Gweithlu gofal sylfaenol

- A6 Dylai'r Bwrdd lechyd archwilio a gweithredu ffyrdd o ymestyn ei ddefnydd o wybodaeth am y gweithlu sy'n bodoli eisoes, ac archwilio sut y gall gasglu a defnyddio data ychwanegol am y gweithlu am y tîm gofal sylfaenol ehangach.

### Ffyrdd newydd o weithio

- A7 Er bod y Bwrdd lechyd yn cymryd camau i weithredu ffyrdd newydd o weithio, mae angen cynnydd wrth werthuso effeithiolrwydd y modelau newydd hyn a'u cyllido o'r brif ffrwd. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- a. gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, darparu tystiolaeth o ganlyniadau buddiol a llywio penderfyniadau ynghylch ehangu'r modelau hyn;
  - b. casglu gwerthusiadau o'r ffyrdd newydd o weithio mewn man canolog a rhannu'r prif negeseuon ym mhob clwstwr; ac
  - c. yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, dechrau cyllido'r modelau newydd hyn o gyllid prif ffrwd yn hytrach nag o'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol.

# Adroddiad manwl

## Cynllunio strategol: Mae'r strategaeth gofal sylfaenol leol yn adlewyrchu'r cynllun cenedlaethol ond mae blaenoriaethau eraill yn amharu ar gyflawniad

### Mae'r Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol er bod blaenoriaethau eraill yn herio cyflymder y cyflawniad

Rhoddir cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol yng nghyd-destun adferiad ariannol a symud gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Cwm Taf, sy'n herio cyflymder y cyflawniad

- 16 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig ar hyn o bryd. Adolygwyd Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 a oedd yn nodi'r amcanion sefydliadol ar gyfer y flwyddyn honno. Prin yw'r manylion yn yr adran sy'n ymwneud â gofal sylfaenol a chymunedol. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio at ddatblygu strategaeth bum mlynedd ar gyfer gofal sylfaenol.
- 17 Mae Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-2022 yn disgrifio sut mae'n bwriadu datblygu Unedau Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ar wahân ledled Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol sy'n cynnwys practisau meddygol cyffredinol yn cydweithio mewn rhwydweithiau clystyrau, a thimau gofal o'r gymuned, gofal eilaidd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector wedi'u hintegreiddio. Mae'n cynnwys pum elfen allweddol: mynediad, gweithlu, ansawdd, technoleg gwybodaeth ac ystadau. Daw cynllun gweithredu gyda'r Strategaeth, ac mae hwn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer pob un o'r elfennau dros gyfnod o bum mlynedd.
- 18 Er mwyn ysgogi trawsnewid a chefnogi prosesau cynllunio a rheoli gofal sylfaenol, mae angen digon o staff medrus yn nhimau gofal sylfaenol byrddau iechyd. Yr Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol sy'n gyfrifol am strategaeth a llywodraethu. Mae cynllun tymor canolig integredig yr Uned ar gyfer 2017-18 yn nodi sawl blaenoriaeth strategol trosfwaol yn ganolbwynt i'r gwaith a'r defnydd o adnoddau:
  - cefnogi cynaliadwyedd y ddarpariaeth o wasanaethau;
  - gwella effeithiolrwydd cost gofal iechyd parhaus a gofal yn y gymuned;
  - sicrhau gwasanaethau contractiol a thalu am wasanaethau a gyflawnwyd yn unig;
  - sicrhau defnydd priodol o'n hasedau ffisegol a TGCh wrth gyflwyno newidiadau i wasanaethau; a

- chefnogi gostyngiad yn y cyfraddau rhagnodi a gweinyddu meddyginiaeth yn amhriodol, er mwyn lleihau niwed a gwastraff.
- 19 Nododd yr Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol gyfres o naw canlyniad drafft penodol i'r cynllun tymor canolig integredig ar gyfer 2017-18, er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r blaenoriaethau allweddol hyn. Darparodd hefyd sylwadau ar gynnydd lefel uchel ar y canlyniadau hyn ym mis Hydref 2017.
- 20 Yn y tymor canolig a byr, bydd angen cyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol yng nghyd-destun adferiad ariannol a symud gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Bydd yn her i'r Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol gyflawni gostyngiadau sylweddol o ran cost erbyn diwedd 2018-19. Mae'r diffyg ariannol disgwylidig yn yr Uned ar gyfer 2018-19 ar hyn o bryd rhwng £3.2 miliwn a £4.8 miliwn. Bydd hefyd angen iddo fodloni dymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i drosglwyddo darpariaeth gofal iechyd poblogaeth breswyl Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Cwm Taf.
- 21 Mae cyflwyniad 2017-18 yn glir y bydd angen tynnu'r flaenoriaeth oddi ar anghenion datblygu eraill er mwyn sicrhau pwyslais strategol ar gyflawni'r ddau amcan hyn. Fel arall ceir peryg na fydd yr Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn cyflawni unrhyw amcanion allweddol os bydd yn ceisio cyflawni gormod o nodau tymor byr. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa anghenion datblygu y dylid tynnu blaenoriaeth oddi arnynt.
- 22 Yn ogystal â chyflawni'r camau gweithredu allweddol yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer 2018-19, mae'r Uned wedi nodi chwe phrif amcan i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf, bob un yn cael rhywfaint o effaith ar effeithlonrwydd gweithredu'r Unedau eraill ar draws y Bwrdd Iechyd:
- canolbwyntio ymdrechion y timau nyrsio cymunedol ar feysydd lle gwelir yr effaith fwyaf;
  - adolygu ac ailfodelu gwasanaethau o'r model cyflawni presennol yn Ysbytai Cymunedol Gorseinon a Maesteg;
  - buddsoddi mewn gofal a ddarperir mewn fferyllfa;
  - ail-gomisiynu gwell gwasanaethau ymarfer cyffredinol;
  - cyflwyno model 'hyb' o wasanaethau integredig; ac
  - ailgynllunio gwasanaethau y tu allan i oriau.
- 23 Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddadansoddiad ariannol manwl i nodi sut y caiff y cynlluniau eu hariannu.

### **Mae Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd ag agweddau allweddol ar y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol**

- 24 Adolygwyd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol i asesu a oeddent yn cynnwys elfennau allweddol sy'n sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a Model Gofal Sylfaenol Cymru.

- 25 Ysgrifennwyd Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd (gweler paragraff 17) yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae'n gysylltiedig ag 'Ein Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018'. Mae hefyd yn cyfeirio at y pwyntiau allweddol a godwyd yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield, 'Securing the future of general practice' (2013).
- 26 Mae Model Gofal Sylfaenol Cymru yn nodwedd allweddol o'r Strategaeth. Fe'i mabwysiadwyd yn dilyn y gwersi a ddysgwyd o'r ysgogi arloesi cenedlaethol, a oedd yn cynnwys saith rhaglen o fewn y Bwrdd Iechyd. Cyfrannodd Hyb Castell-nedd at ddatblygiad model brysbennu clinigol sy'n defnyddio gwaith tîm amlddisgyblaeth. Mentrau eraill sy'n cael eu canlyn ym mlynnyddoedd cynnar y Strategaeth yw:
- profi model gweithlu clwstwr delfrydol;
  - cyflwyno Hyb Castell-nedd;
  - lansio'r model Ffonio'n Gyntaf;
  - datblygu Rhaglen Allgymorth Clinigol Acíwt Meddygon Teulu;
  - sefydlu Ffederasiwn Meddygon Teulu Pen-y-bont ar Ogwr.
- 27 Canfuwyd nifer o feysydd yn Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd sy'n amlygu cryfderau arbennig:
- cyfeiriad clir at elfennau o Fodel Gofal Sylfaenol Cymru yn rhan o gynlluniau lleol;
  - ffyrdd y gellir datblygu capasiti a gallu clystyrau;
  - cydnabod y bydd angen i bractisau weithio mewn ffederasiynau, rhwydweithiau neu bartneriaethau unedig i gynyddu eu maint, eu cwmpas a'u capasiti sefydliadol;
  - cyfeiriadau at waith amlddisgyblaethol, gan gynnwys defnyddio optometryddion, ffisiotherapyddion a fferyllwyr cymunedol, yn ogystal â datblygu swyddogaethau proffesiynol newydd;
  - cydnabod pwysigrwydd cydweithredu rhwng byrddau iechyd, awdurdodau lleol a phrifysgolion ar amrywiaeth o faterion;
  - cynlluniau i atgyfnerthu trefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu, a chynyddu'r defnydd o gyd-gynhyrchu â'r cyhoedd ac asiantaethau eraill, yn arbennig o ran rheoli iechyd a lles; a
  - chyfeirio at bosibiliadau mentrau cyfeirio a rhagnodi cymdeithasol.
- 28 Canfuwyd meysydd eraill o Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y mae angen eu datblygu ymhellach:
- ni cheir llawer o sôn am y defnydd o asesiadau anghenion a lles i lywio datblygiadau'r cynllun partneriaeth;
  - nid oes unrhyw gyfeiriad at ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynllunio gofal sylfaenol.

- 29 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio rhestr flaenoriaeth o wasanaethau gofal eilaidd y maent yn bwriadu eu cyflawni mewn lleoliadau sylfaenol neu gymunedol yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cyfleoedd i symud gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, gan amlygu'r angen i ail-lunio llwybrau rheoli afiechydon cronig a gofal wedi'i gynllunio. Y nod yw y bydd cleifion yn gallu rheoli afiechydon cronig fel Diabetes, Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint ac Asthma, yn llwyddiannus yn eu cartref gyda chymorth timau gofal sylfaenol a chynghor arbenigol pan fo'i angen. Mae'n cydnabod y ceir amrywiad anwarantedig ar hyn o bryd o ran sut y darperir cymorth a lle y caiff ei ddarparu ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 30 Mae Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd hefyd yn cydnabod amrywiaeth eang o gyfleoedd i symud llwybrau gofal wedi'i gynllunio eraill o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, fel iechyd y geg a gofal llygaid. Mae llawer o gleifion yn cael eu sgrinio, eu hasesu ac yn cael triniaeth ddilynol mewn ysbytai pan fo optometryddion penodedig ar y stryd fawr yn gymwys ac yn gallu gwneud y gwaith. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau hefyd i hybu mynediad uniongyrchol at wasanaethau ffisiotherapi a podiatreg, ynghyd â dulliau hunanatgyfeirio ar sail tystiolaeth er mwyn hyrwyddo hunanreolaeth a rhwyddineb mynediad, ac osgoi'r angen i gysylltu â meddyg teulu.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol.**

- 31 Mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn cydweithredu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu cynlluniau. Datblygwyd Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd yn ystod 2017 a 2018 trwy ymgynghori ac ymgysylltu ag unedau darparu gwasanaethau eraill, staff corfforaethol a'r tîm gweithredol. Gwnaed rhagor o waith datblygu a gweithredu trwy:
- y Grŵp Datblygu Gofal Sylfaenol;
  - sawl gweithdy datblygu strategaeth a thri gweithdy penodol ar iechyd y geg;
  - gweithdai datblygu clwstwr a chyfarfodydd arweinwyr clystyrau gyda chyfarwyddwyr meddygol Unedau; a
  - grwpiau cyfranogiad cleifion, grwpiau gofalwyr a Bwrdd Partneriaeth y Gofalwyr.
- 32 Dywedodd y Cyngor Iechyd Cymunedol nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu â nhw yn ddigon cynnar wrth ddatblygu'r Strategaeth. Bu'n rhaid i'w hymgysylltiad eu hunain â'r cyhoedd ynghylch bwriadau'r Bwrdd Iechyd ddechrau pan oedd cynlluniau eisoes ar gam datblygu hwyr. Byddai ymgysylltu mwy dwys rhwng y Bwrdd Iechyd a'r cyhoedd o'r cychwyn cyntaf wedi llywio a chryfhau'r broses gynllunio.
- 33 Cymerwyd rhan yn y digwyddiadau uchod gan gynrychiolwyr o Weithrediaeth y Cyngor Meddygol Lleol, y Cyngor Iechyd Cymunedol a chynrychiolwyr y trydydd sector. Er bod y Cyngor Meddygol Lleol yn cydnabod bod ymgysylltiad yn digwydd,

mae'n amau ei werth. Cyfeiriwyd hefyd at faterion diweddar y nodwyd eu bod wedi lleihau hyder meddygon teulu yng ngallu'r Bwrdd Iechyd i sefydlu cytundebau lleol o ran Gwasanaethau Gwell a Chyfeiriedig.

- 34 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu a chydweithredu â rhanddeiliaid lleol allweddol trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd yn y fforymau hyn ac mae adborth wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r Bwrdd Iechyd fel y bo'n briodol.
- 35 Cymerwyd rhan gan Bwyllgor Deintyddol Lleol y Bwrdd Iechyd yn y strategaeth a'r gweithdai penodol i iechyd y geg. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf unwaith bob dau fis ac mae wedi cael diweddariad ar gynnydd cynlluniau ym mhob cyfarfod. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn y digwyddiadau ymgysylltu a'r gweithdai.
- 36 Cymerwyd rhan gan aelodau o Bwyllgor Optegol Rhanbarthol De Orllewin Cymru yn y cam ymgysylltu â gweithredu'r strategaeth. Roedd cynghorydd Optometreg lleol yn rhan o'r broses gyfan.

## Mae cynlluniau clwstwr yn adlewyrchu cynlluniau strategol ehangach ond mae clystyrau yn rhwystredig oherwydd na allant gyflwyno prosiectau treialu yn y brif ffrwd

- 37 Ceir 11 o glystyrau yn ardal y Bwrdd Iechyd sy'n cynnwys ardal ddaearyddol 3 awdurdod lleol. Caiff pob clwstwr ei arwain gan arweinydd penodedig y clwstwr am un sesiwn yr wythnos 46 wythnos y flwyddyn. Caiff pob arweinydd dâl cydnabyddiaeth trwy gytundeb lefel gwasanaeth â'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi dau Reolwr Cymorth Clwstwr ac 11 o Swyddogion Cymorth Clwstwr i gefnogi'r arweinwyr clwstwr. Mae hefyd yn cynnal amrywiaeth o gyfarfodydd a fforymau i hwyluso'r agenda clwstwr.
- 38 Mae pob arweinydd clwstwr yn cael cymorth penodedig gan reolwr datblygu clwstwr a/neu reolwr gofal sylfaenol, ynghyd â'u timau cysylltiedig. Darperir y cymorth dan oruchwyliaeth cyfarwyddwr clinigol rhanbarthol ac arweinwyr gofal sylfaenol. Mae'r tîm cymorth Gofal Sylfaenol ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai meddygol cyffredinol (e.e. Fferylliaeth) hefyd yn cefnogi agendâu clystyrau.
- 39 Mae clystyrau yn cynnwys amrywiaeth eang o aelodau ar draws sefydliadau a sectorau, bob un yn cyfrannu at gyflawni agenda'r clystyrau. Mae'r rheini sy'n cefnogi clystyrau yn uniongyrchol yn chwarae rhan allweddol wrth gysylltu ag aelodau partner i gyflawni cynlluniau clwstwr a rhaglenni gwaith.
- 40 Datblygwyd y cynlluniau clwstwr o fewn fframwaith amcanion strategol a bennwyd gan y Bwrdd Iechyd. Yn 2017, nododd y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau fod angen symud tuag at ddatblygu cynlluniau tair blynedd. Datblygodd clystyrau eu cynlluniau gyda'r bwriad o gynnal ymarferion adnewyddu blynyddol.
- 41 Datblygwyd cynlluniau'r 11 clwstwr trwy ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth i sicrhau bod pob cynllun yn ystyried poblogaeth leol benodol, anghenion a

gwasanaethau cleifion y gellir mynd i'r afael â nhw trwy gynlluniau gweithredu clwstwr, pan fo hynny'n briodol.

- 42 Mynegodd arweinwyr clystyrau rwystredigaeth â'r diffyg blaenoriaeth tybiedig i ofal sylfaenol. Dywedwyd nad ydynt wedi gallu cyflwyno atebion lleol yn y brif ffrwd er mwyn helpu i drawsnewid gwasanaethau. Dywedwyd nad oes dull clir o werthuso prosiect ac nad oes dull i alluogi'r Bwrdd lechyd i ddarparu cyllid prif ffrwd ar gyfer prosiectau effeithiol. Dywedwyd wrthym, er gwaethaf sylwadau i'r Bwrdd lechyd, na chafodd unrhyw un o'r prosiectau mewn clystyrau unigol eu mabwysiadu. Rhan o'r her hon yw bod cyllid clwstwr ar gyfer prosiectau yn para dwy flynedd yn lle tair. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad yw cyllid dwy flynedd yn darparu digon o froceriaeth i sicrhau bod prosiectau yn gwbl weithredol. Fodd bynnag, ar gyfer prosiectau llwyddiannus sy'n para mwy na dwy flynedd, mae gweithwyr tymor penodedig yn cael hawliau cyflogaeth parhaol. Ni chydabyddir hyn yng nghynllun tymor canolig integredig y Bwrdd lechyd.
- 43 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos ein canfyddiadau o'n harolwg o arweinwyr clwstwr, sy'n awgrymu bod clystyrau yn y Bwrdd lechyd ar wahanol gamau o ran aeddfedrwydd. Ceir profiad cymysg ymhlith yr un ar ddeg o arweinwyr clwstwr.

#### Arddangosyn 4: asesiad arweinwyr clystyrau o lefel datblygiad eu sefydliad

Mae'r tabl yn dangos nifer y clystyrau ar y tair lefel o aeddfedrwydd (gweler y nodyn).

|                               | 1 = Yn datblygu | 2 = Yn sefydlog ac yn dechrau cyflawni | 3 = Aeddfed |
|-------------------------------|-----------------|--|-------------|
| <b>Abertawe Bro Morgannwg</b> | <b>1</b>        | <b>4</b>                               | <b>2</b>    |
| Aneurin Bevan                 | 1               | 6                                      | 0           |
| Betsi Cadwaladr               | 2               | 5                                      | 1           |
| Cwm Taf                       | 0               | 5                                      | 2           |
| Caerdydd a'r Fro              | 1               | 5                                      | 2           |
| Hywel Dda                     | 0               | 4                                      | 1           |
| Powys                         | 1               | 1                                      | 1           |
| Cymru                         | 6               | 30                                     | 9           |

Sylwer:

1 =Yn datblygu: ar gamau datblygu cynnar ac mae angen cymorth sylweddol; nid yw pob aelod o'r clwstwr wedi ymgysylltu'n llawn.

2 = Yn sefydlog ac yn dechrau cyflawni: Wedi dechrau cyflawni rhai buddion, ond yn dal ar gamau cynnar; mae angen i gymorth barhau ac nid yw'r potensial llawn wedi'i wireddu

eto.

3 = Aeddfed: mae holl aelodau'r clwstwr wedi ymgysylltu'n llawn; yn cyflawni ar draws nifer o feysydd yn unol â chynllun y clwstwr.

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018




**Buddsoddiad: Mae gan y Bwrdd Iechyd rai enghreifftiau o symud adnoddau yn agosach at adref ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'r buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol a cheir pryderon ynghylch diffyg cyllid parhaus i gynnal prosiectau llwyddiannus.**

**Mae fformat y cyfrifon yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir fuddsoddiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd mewn gofal sylfaenol**

- 44 Mae **Arddangosyn 5** wedi'i seilio ar ddata o gyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd ac mae'n nodi'r gwariant hirdymor y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol. Mae'r cyfanswm yn cynnwys gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwariant Gofal Iechyd Sylfaenol 'Arall'<sup>9</sup>. Mae'r arddangosyn yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwario £142.4 miliwn ar y gwasanaethau gofal sylfaenol hyn yn 2016-17.

**Arddangosyn 5: gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau gofal sylfaenol**



Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol BIP Abertawe Bro Morgannwg

Sylwer: Nid yw'r echel-y yn dechrau ar sero. Nid ydym wedi cynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn oherwydd natur amrywiol y gwariant hwn, o ganlyniad i amrywio prisiau cyffuriau.

<sup>9</sup> Heb gynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn

- 45 Mae **Arddangosyn 5** yn dangos bod y gwariant cyffredinol wedi aros yr un fath fwy neu lai rhwng 2010-11 a 2016-17. Ar ôl ystyried effaith chwyddiant, ymddengys bod gwariant y Bwrdd Iechyd ar y pedwar categori hyn o ofal sylfaenol wedi gostwng 9.4% mewn termau real yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur hwn yn ystyried y gwahanol ffyrdd o gategoreiddio'r gwariant mewn gwahanol flynyddoedd. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael arian ar gyfer gofal sylfaenol o ffynonellau eraill (gweler paragraff 50). Yn ogystal â hyn, mae angen ystyried ffactorau eraill er mwyn cael darlun mwy cywir o'r gwariant ar ofal sylfaenol.
- 46 Cafwyd gostyngiad yng ngwariant y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol rhwng 2015-16 a 2016-17 gan fod adolygiad gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiol wedi ailasesu'r cyfraddau busnes a oedd yn ddyledus ar gyfer practisau meddygon teulu ar sail prisiad is dros sawl blwyddyn. Arweiniodd hyn at £3.5 miliwn yn llai o ddyraniad yn y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar sail ad-daliadau cyfraddau nad ydynt yn rheolaidd ar gyfer y flwyddyn honno. Felly, i bob pwrpas, roedd gwariant gwirioneddol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol gymaint â hynny yn fwy. Arweiniodd newidiadau tebyg eraill yn 2016-17 at leihau yn nyraniad y gyllideb, gan gynnwys gwerth £3 miliwn o newidiadau cyfrifyddu yn gysylltiedig â Fferylliaeth heb derfyn arian parod a £2 miliwn o ganlyniad i ganoli costau hyfforddiant cofrestrdyddion ymarfer cyffredinol.
- 47 Dyraniad y gyllideb ar gyfer gwasanaethau fferyllol yw'r gwerth â therfyn arian parod a ddyrennir i fyrddau iechyd. Cyfeiriwyd at y ffigurau gwariant ar ôl ystyried gwasanaethau heb derfyn arian parod. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael credyd net ar gyfer y gwahaniaeth rhwng rhagnodi a gweinyddu, ac ystyrir llif ar draws ffiniau at ddibenion cymharu gwirioneddol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi wrth gymharu dyraniad â therfyn arian parod â gwariant â therfyn arian parod, bod gwariant rhwng 2010-11 a 2014-15 yn fwy, neu'n unol yn fras, â'r dyraniad â therfyn arian parod.
- 48 Yn fwy diweddar, roedd lefel y gwariant â therfyn arian parod yn is na'r dyraniad â therfyn arian parod. Gostyngodd Llywodraeth Cymru y taliad ymarfer i fferyllfeydd cymunedol, gan ddisgwyl i fyrddau iechyd gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau gwell y bydd yn eu comisiynu. Bu oedi wrth weithredu cytundebau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Y sefyllfa sylfaenol wirioneddol yn ystod y tair blynedd diwethaf yw bod y Bwrdd Iechyd yn gwario tua £2 miliwn y flwyddyn yn llai na'r dyraniad. Mae camau gweithredu yn cael eu cymryd yn hyn o beth trwy'r broses o adolygu contractau o 2017-18 ymlaen. Bwriedir y bydd gwariant a gynlluniwyd yn cynyddu ar ôl comisiynu amrywiaeth o wasanaethau gwell newydd neu estynedig.
- 49 Ledled Cymru canfuwyd problemau yn y dull y cofnodir gwariant ar ofal sylfaenol yn y cyfrifon. Ni chaiff gwariant ei gategoreiddio mewn modd cyson gan fyrddau iechyd ac yn aml nid yw'r ffigurau a gofnodir yn y cyfrifon yn cynrychioli cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol. Hefyd, bydd rhai byrddau iechyd yn darparu gwasanaeth trwy ofal sylfaenol a bydd eraill yn darparu'r un gwasanaeth neu wasanaeth tebyg trwy ofal cymunedol. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod ei ddyraniad refeniw ar gyfer eitemau nad ydynt yn ofal sylfaenol wedi cynyddu £145 miliwn ers 2010-11. Adlewyrchodd hyn gynnydd cyffredinol i gefnogi dyfarniadau

tâl ac effeithiau chwyddiant eraill, newidiadau technoleg a thwf yn y galw. Hefyd, cafwyd dyraniadau penodol i gefnogi newidiadau'r gwasanaeth a datblygiadau ar draws gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gwasanaethau lechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a Gofal Canolraddol.


- 50 Yn 2016-17, cafodd y Bwrdd lechyd £9.9 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal sylfaenol.
- cytundebau lefel gwasanaeth sefydliadau gwirfoddol ag awdurdodau lleol (£2.3 miliwn yn 2016-17)
  - cytundebau adran 28a (£0.9 miliwn yn 2016-17)
  - cytundebau cynllun cyflawni (£4.3 miliwn yn 2016-17)
  - gwariant y rhwydwaith clystyrau ((£1.7 miliwn yn 2016-17)
  - gwariant Ysgogi Arloesi (£0.7 miliwn yn 2016-17)

## Gall y Bwrdd lechyd nodi rhai enghreifftiau o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol ac mae wedi sefydlu dull o oruchwylio symudiad adnoddau a buddsoddiad

- 51 Ers sawl blwyddyn, mae GIG Cymru wedi cynllunio i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol, er mwyn gwrthdroi'r 'tan-ddatblygiad ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru'<sup>10</sup>. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol presennol unwaith eto yn pwysleisio'r pwysigrwydd i fyrddau iechyd symud eu hadnoddau tuag at ofal sylfaenol.
- 52 Mae **Arddangosyn 5** yn dangos gwariant y Bwrdd lechyd ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm ei wariant (Cost Gweithredu Net, 2010-11 hyd 2016-17). Nid yw'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Mae'r arddangosyn yn dangos nad yw gwariant ym maes gofal sylfaenol yn gyson â chyfanswm y gwariant mewn byrddau iechyd, er gwaethaf blaenoriaethau cenedlaethol i symud tuag at ofal sylfaenol. Mae hyn yn wir yn y Bwrdd lechyd, sydd wedi gostwng yn is na chyfartaledd Cymru ers 2013-14 ac a fu'n gostwng am bron yr holl gyfnod rhwng 2010-11 a 2016-17.

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, Gwella lechyd yng Nghymru: Dyfodol Gofal Sylfaenol, Gorffennaf 2001.

Arddangosyn 5: gwariant y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm ei wariant (Cost Gweithredu Net, 2010-11 hyd 2016-17)



Ffynhonnell: Cyfrifon Blynnyddol Byrddau Iechyd Lleol

Sylwer: Nid yw'r echel-y yn dechrau ar sero.

- 53 Gofynnwyd a yw byrddau iechyd yn cymryd camau penodol i gyflawni symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol. Canfuwyd nad oedd yr un o'r byrddau iechyd wedi pennu targedau ar gyfer symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol. Canfuwyd hefyd nad yw'r un o'r byrddau iechyd wedi meintioli faint o adnoddau a symudwyd tuag at ofal sylfaenol ers dechrau'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn 2014. Er bod angen iddo symud adnoddau o leoliadau gofal eilaidd i leoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ar hyn o bryd mai dim ond mewn newidiadau bach i wasanaethau, e.e. darparu gwasanaethau fasdoriad mewn gofal sylfaenol, y gall ddangos y symudiad hwn.
- 54 Datblygwyd Fframwaith Ariannol i Gefnogi Shiftt Gwasanaethau Eilaidd Aciwt i Ddarparu Gwasanaeth Cymunedol/Sylfaenol<sup>11</sup> gan gyfarwyddwyr cyllid y bwrdd iechyd, ynghyd â chyfarwyddwyr gofal sylfaenol a chymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gall y dull fframwaith hwn gefnogi gweithrediad ei gynlluniau gofal sylfaenol a'i gynlluniau trawsnewid gwasanaethau ehangach.
- 55 Mae Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd yn nodi gwasanaethau a all drosglwyddo yn ystod y blynnyddoedd nesaf, yn amodol ar brosesau cymeradwyo ffurfiol y Bwrdd Iechyd. Yn 2017, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Buddion Buddsoddi dan arweiniad y weithrediaeth sy'n gweithredu'r dull ar gyfer buddsoddi mewn adnoddau neu symud adnoddau yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r grŵp yn defnyddio dull achos busnes ar gyfer pob penderfyniad ynghylch symud

<sup>11</sup> 54 Fframwaith Ariannol i Gefnogi Shiftt Gwasanaethau Eilaidd Aciwt i Ddarparu Gwasanaeth Cymunedol/Sylfaenol, WHC (2018) Rhif / Number 025, Gorffennaf 2018

adnoddau tuag at ofal sylfaenol. Mae wedi nodi templed o ofynion gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer pob cyflwyniad; proses gyson o ystyried pob achos; a threfn monitro a gwerthuso drylwyr o fuddsoddiadau. Mae'r dull cyffredinol yn meithrin mwy o hyder a sicrwydd.

- 56 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gais yn ddiweddar i Lywodraeth Cymru ar gyfer Model Trawsnewid System Gyfan Cwmtawe, i ddangos sut y gall clwstwr gyflawni Model Gofal Sylfaenol Cymru yn gyflym. Cymeradwywyd y cais a hwn yw'r clwstwr cyntaf yng Nghymru i gael cyllid i ddatblygu'r model hwn. Cafodd y Bwrdd Iechyd £1.7 miliwn o gyllid a gofynnwyd iddo ddatblygu cynlluniau i gyflwyno'r dull hwn ym mhob clwstwr yn y bwrdd iechyd newydd<sup>12</sup>.
- 57 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym y buddsoddwyd mewn nifer o fentrau trwy ddefnyddio arian o gyllid gofal sylfaenol a chyllid pennu cyfeiriad, fel:
- comisiynu gwasanaethau gwell a chyfeiriedig sydd wedi gweld mwy na £1.2 miliwn yn cael ei symud i ofal sylfaenol ym meysydd gwrthgeulo, gwasanaethau gwaed gofal eilaidd a gofal diabetes yn 2017-18.
  - mae datblygu Uned Cyflawni Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ers 2016 wedi cynnwys trosglwyddo cyfrifoldeb rheoli a goruchwylio nifer o wasanaethau o'r unedau gofal eilaidd (e.e. deintyddiaeth adferol, iechyd rhyw, cardioleg gymunedol a gwasanaeth adsefydlu cleifion yr ysgyfaint), sydd wedi galluogi'r uned i gyflawni'r agenda darparu gofal sylfaenol yn well.
  - tendr y Bwrdd Iechyd yn 2015-16 i ddarparu gwasanaethau fasdoriad mewn practisau cyffredinol (tua £0.8 miliwn y flwyddyn, ar gyfer 720 o achosion).

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant clystyrau fel mater o drefn ond mae arweinwyr clystyrau yn poeni'n fawr am y diffyg cyllid sy'n parhau ar gyfer trawsnewid gofal sylfaenol

- 58 Mae angen i fyrddau iechyd gael y cydbwysedd iawn rhwng rhoi ymreolaeth i glystyrau a goruchwylio eu gwariant. Lluniwyd cynlluniau datblygu clystyrau a chytunwyd arnynt a'u cymeradwyo gan arweinwyr clwstwr a rhwydwaith. Mae'r cynlluniau wedi'u trosi'n rhagolygon ariannol a chyllidebau, sydd wedi'u llwytho i system ariannol y Bwrdd Iechyd. Caiff gwariant nad yw'n wariant ar gyflogau ei adolygu a'i awdurdodi gan arweinwyr clwstwr. Mae costau cyflog yn dilyn yr un cod â phob gwariant arall ar gyflogau ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 59 Caiff adroddiadau eu llunio o leiaf unwaith y mis ac yn 'ad hoc' ar gais swyddog cymorth clwstwr. Trafodir yr adroddiadau mewn cyfarfodydd rhwydwaith clwstwr. Cyflwynir adroddiadau bob chwarter ar wariant, rhwymedigaethau a chynlluniau'r clwstwr i'r Bwrdd Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Cânt eu cyflwyno hefyd

<sup>12</sup> Bydd gwasanaethau yn rhan ddwyreiniol y Bwrdd Iechyd, yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, yn dod yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Bydd y gwasanaethau sy'n weddill yn y Bwrdd Iechyd yn ffurfio bwrdd iechyd newydd.

i Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd i'w trafod ag Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ôl y galw.

- 60 Yn ein harolwg o arweinwyr clwstwr, clywsom dro ar ôl tro am bryder gwirioneddol ynghylch diffyg cyllid parhaus i sefydlu prosiectau treialu trawsnewid llwyddiannus a mentrau datblygu eraill sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

## **Mae datblygu strategaeth ystadau yn cysylltu'n glir â'r Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol sy'n cynnwys blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer adeiladau gofal sylfaenol ac anghenion TGCh**

- 61 Mae model perchnogaeth adeiladau gofal sylfaenol yn gymhleth. Cafodd rhai adeiladau eu hadeiladu'n bwrpasol gan ddatblygwr masnachol a'u prydlesu yn ôl i'r GIG. Mae adeiladau eraill yn eiddo i feddygon teulu, sy'n derbyn ad-daliadau rhent cysyniadol gan y byrddau iechyd. Mae adeiladau eraill yn eiddo i'r byrddau iechyd sy'n prydlesu ystafelloedd i feddygon teulu. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2013 nad oedd yn cyllido datblygiadau ystadau gofal sylfaenol mwyach ac y byddant o hyn allan yn gyfrifoldeb y Byrddau Iechyd.
- 62 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r angen i wella'r ystâd sylfaenol a chymunedol yn rhan o'i Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Mae'r strategaeth yn nodi'r heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwaith hwn. Cafodd hyn ei llywio gan ddatganiad o Sefyllfa Ystadau a gynhaliwyd yn 2016-17.
- 63 Mae strategaeth eiddo ac ystadau gyffredinol yn cael ei datblygu, fel y nodir yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Defnyddiwyd hyn i lywio ceisiadau i Lywodraeth Cymru am grantiau gwella practisau, adeiladau cyfalaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, a chynlluniau adnewyddu practisau fel ym mhractisau Murton a Phenclawdd.
- 64 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu lleoliadau gofal sylfaenol newydd ym Mrynhyfryd, Llansawel, Porthcawl, Cwm Nedd, yn ogystal â chanolfan teulu a gofal sylfaenol integredig ym Mayhill. Mae hefyd wedi cael cyllid grant i wella adeiladau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn Abercynffig ac Ystalyfera. Defnyddiodd gyfalaf dewisol y Bwrdd Iechyd i adnewyddu Ysbyty Maesteg i ddarparu safle Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol pwrpasol i feddygfa Bron y Garn. Ar adeg ein hadolygiad, roedd achosion busnes yn cael eu datblygu i ddefnyddio cyllid gofal sylfaenol sylweddol arfaethedig ar gyfer prosiectau yn Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr.
- 65 Cafodd y Bwrdd Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ddau gais arfaethedig am grantiau gwella ac fe'u hystyriwyd yn ei gyfarfodydd ym mis Rhagfyr 2017 a mis Chwefror 2018.

- 66 Mae cynlluniau buddsoddi mewn iechyd y geg hefyd yn cynnwys cynllun gwella'r Bwrdd Iechyd sy'n cael ei ddefnyddio i gymell practisau gwasanaethau deintyddol cyffredinol i ddarparu lleoliad gwell i fodloni ei ofynion Deddf Cydraddoldeb trwy fuddsoddiad cyfalaf.
- 67 Mae'r Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn nodi anghenion a blaenoriaethau TGCh cysylltiedig ar draws y Bwrdd Iechyd. Rhoddwyd cychwyn ar sawl elfen, er enghraifft:
- dyraniad o'r cam cyntaf o gyllid clwstwr Llywodraeth Cymru i wella TGCh a mynediad;
  - buddsoddiad gan glystyrau yn y rhaglen Vision 360 Appointments<sup>13</sup> i wella cydweithrediad rhwng practisau; datblygu dull cyfrannol o gofnodi a dadansoddi data am brofiad cleifion; a gwefannau clwstwr;
  - datblygu dangosfwrdd gofal sylfaenol ar gyfer gwybodaeth rheoli amser real (gweler paragraff 106);
  - cydweithio ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Galw Iechyd Cymru/111) i gefnogi cyflwyniad model mynediad newydd ar gyfer gofal deintyddol brys yn ystod oriau gwaith a thu allan i oriau gwaith;
  - treialu'r gwasanaeth 111 ac ymgysylltiad dilynol mewn gweithredu systemau a chysylltiadau rhwng meddygon y tu allan i oriau a systemau practis; a
  - buddsoddiad parhaus mewn caledwedd a meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer practisau meddygon teulu i ymestyn darpariaeth glinigol.


<sup>13</sup> Rhaglen gweld a chadw apwyntiadau ar draws practisau yw Vision 360 Appointments sy'n golygu bod modd gweld a diweddarau apwyntiadau cleifion mewn amryw o bractisau.

## Gweithlu: Mae cynaliadwyedd practisau wedi'i reoli'n dda er bod bylchau mewn data staffio yn llesteirio prosesau cynllunio'r gweithlu, ac mae diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn rhwystro datblygiad timau amlddisgyblaeth

Mae gan y Bwrdd Iechyd Fylchau yn y data staffio a fydd yn llesteirio ei ymdrechion i gynllunio'r gweithlu y bydd ei angen yn y dyfodol

- 68 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn nodi'r angen i ddatblygu gweithlu lleol medrus sydd â'r niferoedd a'r cymysgedd cywir o sgiliau i ddiwallu anghenion pobl yn nes at adref. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd fapio'r holl adnoddau clinigol, gweithlu, ariannol ac eraill.
- 69 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer ychydig yn uwch o feddygon teulu am bob 10,000 o'r boblogaeth (6.33) na chyfartaledd Cymru (6.19). Mae'r nifer wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn unol yn fras â'r duedd genedlaethol ([Arddangosyn 6](#)). Mae nifer y partneriaethau meddygon teulu wedi disgyn bob blwyddyn o 77 ym mis Medi 2013 i 68 ar adeg ein harchwiliad. Canran y partneriaethau ag un partner yn unig yw 6%, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 11%.

Arddangosyn 6: nifer y meddygon teulu am bob 10,000 o'r boblogaeth




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Medi 2017



70 Mae **Arddangosyn 7** yn dangos bod maint rhestr gyfartalog pob meddyg teulu yn y Bwrdd Iechyd wedi amrywio rhywfaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n unol â chyfartaledd Cymru ar hyn o bryd.

#### Arddangosyn 7: maint rhestr gyfartalog pob meddyg teulu



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Medi 2017

71 Mae **Arddangosyn 8** yn dangos bod cyfran y meddygon teulu dros 55 oed yn ardal y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru, a bod cyfran y meddygon teulu sy'n fenywod yn y Bwrdd Iechyd fymryn yn is na chyfartaledd Cymru.

#### Arddangosyn 8: demograffeg meddygon teulu yn ôl oedran a rhyw

|               | Bwrdd Iechyd Prifysgol<br>Abertawe Bro Morgannwg | Cymru |
|---------------|--|-------|
| • Dros 55 oed | 18%  | 22%   |
| • Benyw       | 51%  | 52%   |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 30 Medi 2017

72 Mae'r Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn nodi'r modelau gweithlu posibl a'r swyddogaethau proffesiynol y bydd eu hangen i weithredu'r model newydd o ymarfer meddygol cyffredinol. Rydym yn deall bod elfennau ar

wahân o'r strategaeth wedi arwain at adolygiadau gweithlu mewn rhai meysydd, e.e. cyflwyno modelau newydd ar gyfer gwasanaeth iechyd y geg mewn gofal sylfaenol a chymunedol. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld dadansoddiad clir o'r data sydd ar gael.

- 73 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mapio nifer y meddygon teulu a'r sesiynau a weithiwyd, ac mae wedi dechrau casglu gwybodaeth am swyddi gwag meddygon teulu yn fwy rheolaidd. Mae'n defnyddio cynlluniau datblygu practis i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ddemograffeg am y gweithlu practis cyffredinol. Nid yw'n glir a yw hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cymysgedd sgiliau.
- 74 Mae data staffio sylfaenol ar gael i ymarferwyr cymunedol eraill. Mae'r Bartneriaeth Cydwasaethau wedi dweud wrth y Bwrdd Iechyd bod 129 o fferyllwyr yn gweithio yn y 125 o fferyllfeydd cymunedol lleol. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys nifer sylweddol o staff locwm ac nid yw'r cymysgedd sgiliau yn hysbys.
- 75 Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod 312 o Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol cofrestredig yn gweithio'n lleol ar gyfanswm o 105 o gontractau cyffredinol ac arbenigol, ond nid oes data ynghylch y cymysgedd sgiliau yn y practisau. Mae hefyd yn nodi bod 128 o optometryddion cofrestredig yn gweithio ar draws 54 o safleoedd practis lleol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Ond unwaith eto, nid oes unrhyw wybodaeth am y cymysgedd sgiliau mewn practisau.
- 76 Roedd gan y Bwrdd Iechyd 292 o gontractwyr Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn 2017, sy'n fwy na'r 245 yn 2014. Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn nifer yr optometryddion o 113 yn 2014 i 116 yn 2017.

## **Mae'r Bwrdd Iechyd mewn cysylltiad rheolaidd â phractisau ac mae'n monitro eu cynaliadwyedd, ac mae un practis a reolir yn uniongyrchol**

- 77 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yn glir yr angen am wasanaethau meddygol cyffredinol cynaliadwy, o gofio'r heriau cenedlaethol sy'n ymwneud â'r galw cynyddol gan gleifion â chyflyrau mwy cymhleth, yn ogystal â materion recriwtio a chadw.
- 78 Mae nifer o bractisau wedi dioddef heriau cynaliadwyedd difrifol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ym mis Medi 2016, roedd 73 o bractisau gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ardal y Bwrdd Iechyd, ac ar adeg ein gwaith roedd 68 o bractisau. Ategwyd y gostyngiad gan y Tîm Cymorth Practisau (gweler paragraff 79) trwy ddefnyddio fframwaith uno practisau lleol. Mae'r fframwaith yn darparu cymorth ariannol dewisol ac yn annog trefniadau uno.
- 79 Mae gan lawer o Fyrdau Iechyd Uned Cymorth Gofal Sylfaenol i ddarparu cymorth i bractisau a reolir yn uniongyrchol ac i sicrhau cynaliadwyedd parhaus practisau nad ydynt wedi eu rheoli'n uniongyrchol. Yn y Bwrdd Iechyd, caiff y swyddogaeth hon ei chyflawni gan y Tîm Cymorth Practisau, a sefydlwyd yn wreiddiol yn ystod 2016-17. Ym mis Ebrill 2018, roedd gan y tîm 7.4 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn a oedd yn cynnwys tîm rheoli o 0.8 Cyfarwyddwr Clinigol,

1 Uwch Nyrs Cyfwerth ag Amser Llawn, ac 1 Rheolwr Datblygu cyfwerth ag amser llawn

- 80 Arweinir y Tîm gan y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Cynaliadwyedd sydd wedi bod i gyfarfodydd rhwydwaith clwstwr i hybu'r gwasanaeth yn rhagweithiol. Mae'n cynnwys meddygon teulu ar gyflog, uwch-ymarferydd nyrsio a rheolwr datblygu busnes. Mae'r pwyslais ar gynaliadwyedd a hybu Gofal Iechyd Darbodus. Mae'r tîm yn darparu cymorth diagnostig a thrawsnewid gwasanaethau i bractisau. Mae'r Tîm yn cydweithio'n agos â'r Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol, y tîm rheoli meddyginiaethau, yn ogystal â staff cyllid a gweithlu.
- 81 Mae'r Tîm Cymorth Practisau yn nodi practisau sydd mewn perygl gan ddefnyddio'r Fframwaith Cynaliadwyedd Cenedlaethol a gaiff ei lunio a'i gytuno â phob practis. Mae'n cynnig cymorth ac adnoddau yn rhagweithiol er mwyn helpu practisau i fod yn arloesol a chyflwyno modelau gofal newydd, a datblygu gweithlu yn ôl anghenion lleol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer datblygu gwasanaethau, timau a rhwydweithiau clwstwr.
- 82 Mae pob practis sydd wedi sgorio mwy na 55 (ambr a choch) ar y fframwaith wedi cael ymweliad. Caiff dewisiadau cymorth eu hystyried mewn cyfarfodydd Cynaliadwyedd a Mynediad. Caiff ymyraethau'r Tîm Cymorth Practisau eu monitro yn y cyfarfodydd hyn hefyd. Mae Cyfarwyddwr Clinigol y Tîm yn recriwtio meddygon teulu'r Gymrodoriaeth Glwstwr (mae tri ar waith ar hyn o bryd) ac yn rheolwr llinell iddynt, ac mae'n gweithio mewn practisau sy'n ei chael yn anodd recriwtio staff. Caiff y swyddi hyn eu hariannu gan y clystyrau a'r practisau.
- 83 Erbyn mis Rhagfyr 2017, roedd y Tîm wedi gweithio gyda 18 o bractisau. Caiff dewisiadau cymorth eu hystyried mewn cyfarfodydd Cynaliadwyedd a Mynediad. Caiff ymyraethau'r Tîm Cymorth Practisau eu monitro yn y cyfarfodydd hyn hefyd. Mae Cyfarwyddwr Clinigol y Tîm yn recriwtio meddygon teulu'r Gymrodoriaeth Glwstwr (mae tri ar waith ar hyn o bryd) ac yn rheolwr llinell iddynt, ac mae'n gweithio mewn practisau sy'n ei chael yn anodd recriwtio staff. Caiff y swyddi hyn eu hariannu gan y clystyrau a'r practisau.
- 84 Caiff yr wybodaeth o'r fframwaith ei defnyddio hefyd i lunio mapiau asesu lefelau agored i niwed ar gyfer pob ardal clwstwr, a chaiff y rhain eu monitro gan y Fforwm Mynediad a Chynaliadwyedd. Ymgorfforwyd y fframwaith cynaliadwyedd yn y rhaglen ymweliadau Llywodraethu Practisau ffurfiol sy'n mynd i'r afael â materion contractiol a llywodraethu clinigol. Y nod yw cyflawni'r gwerth mwyaf o ryngweithio rhwng y tîm gofal sylfaenol a'r practisau, a lleihau'r baich biwrocratiaeth ar bractisau.
- 85 Mae Penaethiaid Gofal Sylfaenol, Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Uned a Chyfarwyddwr Meddygol yr Uned yn cwrdd â chynrychiolwyr y Cyngor Meddygol Lleol a'r Cyngor Iechyd Cymunedol bob tri mis i drafod materion mynediad a chynaliadwyedd. Mae'r Uned, y Cyngor Meddygol Lleol a'r Cyngor Iechyd Cymunedol hefyd yn cwrdd i ystyried ceisiadau am gymorth cynaliadwyedd gan ddefnyddio'r broses gynaliadwyedd y cytunwyd arni ledled Cymru.

- 86 Cynhaliwyd pedair proses uno practisau ac un broses gwasgaru practisau trwy ymgysylltu'n briodol â chleifion, ac â chyngor y Cyngor Iechyd Cymunedol pan fo'i angen:
- 1 Ebrill 2017 – uno Practis Cwmafon â'r Cymer (practis a reolwyd gan y bwrdd iechyd) i ffurfio un practis wedi'i reoli gan y bwrdd iechyd sy'n gweithredu dros 2 safle yng Nghastell-nedd Port Talbot.
  - 1 Mehefin 2017 – uno practisau San Helen a'r Stryd Fawr i ffurfio Practis Abertawe (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol).
  - 1 Gorffennaf 2017 – cau a gwasgaru practis unigol Victoria Road ym Mhen-y-bont ar Ogwr
  - 1 Hydref 2017 – uno meddygfeydd Ashfield a Newcastle i ffurfio Practis Pen-y-bont ar Ogwr
  - Ionawr 2018 – Uno gofal sylfaenol Clydach a Sway Road i ffurfio Gofal Sylfaenol Cwmtawe
- 87 Ar ddiwedd ein hadolygiad, roedd un practis yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd.

## **Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i weithredu timau gofal sylfaenol amlbroffesiynol ond ceir diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, sy'n rhwystro datblygiad pellach**

- 88 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn datgan mai swyddogaeth meddygon teulu yn y dyfodol fydd darparu arweiniad cyffredinol i dimau amlbroffesiwn. Byddai'r timau hyn yn cynnwys fferyllwyr, therapyddion, optometryddion, parafeddygon, uwch nyrsys practisau ac eraill. Mae'r cynllun gweithlu cenedlaethol yn datgan bod yn rhaid i fyrddau iechyd nodi cyfleoedd i'r gweithwyr proffesiynol hyn wella mynediad trwy ddarparu pwynt cyswllt cyntaf i gleifion.
- 89 Blaenoriaeth strategol allweddol yng nghynlluniau'r Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer 2018 yw sefydlu gwaith amddisgyblaethol hyb ar draws clystyrau. Mae cynlluniau clwstwr, cynlluniau pennu cyfeiriad a Chynllun Blynnyddol y Bwrdd Iechyd i gyd yn cynnwys elfennau sylweddol o ail-lunio'r gweithlu, yn arbennig er mwyn cefnogi cynaliadwyedd a datblygiad gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud bod newid sylweddol yng ngwneuthuriad modelau gweithlu i ddilyn dull amlddisgyblaethol, wrth i bob clwstwr ddefnyddio o leiaf un gweithiwr clinigol nad yw'n feddygol fel fferylllydd, rhagnodwr annibynnol neu uwch-ymarferydd.
- 90 Ceir modelau partneriaeth datblygedig ag asiantaethau eraill fel Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Er enghraifft, mae gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau wedi recriwtio parafeddygon a gaiff eu cefnogi gan yr Ymddiriedolaeth. Dyma elfen allweddol o broses ail-lunio barhaus y gwasanaeth sy'n ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar adnoddau meddygon teulu ac ymarferwyr nyrsio sy'n gynyddol brinhau. Mae'r broses ail-lunio hefyd yn cynnwys mwy o ddibyniaeth

ar nyrsys yn ymdrin â galwadau ffôn a 'desg glinigol' amlddisgyblaethol 111. Caiff rhai o'r dulliau hyn eu harchwilio gan glystyrau hefyd.

- 91 Mae fferyllfeydd cymunedol yn cael eu cefnogi gan yr Uned a thimau rheoli meddyginiaeth i sicrhau eu bod yn barod i ddarparu'r amrywiaeth ehangach o wasanaethau sydd eu hangen i sicrhau bod y pwynt cyswllt cyntaf yr hyn a ragwelir yn y strategaeth genedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd cyflwyno'r contract newydd, ynghyd â buddsoddiad mewn anghenion TG fel y cyfrwng Dewis Fferyllfa, yn arwain at integreiddio fferyllwyr yn well â darparwyr gofal sylfaenol eraill. Yn ei dro byddai hyn yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd ymarfer cyffredinol.
- 92 Ehangwyd yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn y rhan fwyaf o bractisau optometreg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu sicrhau y defnyddir yr adnodd hwn i'r eithaf a'i fod yn cefnogi trefniadau ail-lunio llwybrau offthalmoleg. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio arian Llywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddiant optometreg.
- 93 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull blaengar o ddarparu cymorth ar gyfer iechyd y geg. Y nod yw gwella mynediad at wasanaethau a'u hansawdd, yn ogystal â lleihau atgyfeirio diangen ac oedi mewn gofal eilaidd. Mae wedi darparu hyfforddiant a gwasanaethau ar gyfer chwe phractis contract deintyddol ar raglen dreialu, ac mae hefyd yn cyflogi deintydd â sgiliau uwch mewn endodonteg.<sup>14</sup> Ceir rhagor o gynlluniau i wella capasiti deintyddol cyffredinol i wneud gwaith prosthodonteg<sup>15</sup>.
- 94 Mae nyrsys deintyddol hyfforddedig yn cael eu defnyddio i gefnogi'r Ganolfan Rheoli Atgyfeiriadau ar gyfer iechyd y geg. Sefydlwyd y Ganolfan yn 2014 i gydlynu a rheoli ceisiadau yn ystod oriau gwaith ar gyfer gofal deintyddol cyffredinol brys.
- 95 Cyflwynwyd amrywiaeth o fodelau mynediad Ffonio'n Gyntaf ar draws y Bwrdd Iechyd. Yn 2017, ffurfiolodd grŵp mynediad amlasiantaethol y Bwrdd Iechyd safonau ar gyfer y modelau hyn. Ym mis Chwefror 2018, lansiodd ganllawiau i bractisau sy'n dymuno gweithredu unrhyw fodel mynediad sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael ymgynghoriad dros y ffôn cyn trefnu apwyntiad. Bydd pob practis yn cynnal hunanasesiad ar y safonau hyn.
- 96 Mae mentrau arloesi brysbennu eraill wedi'u seilio ar fodel Hyb Castell-nedd wrth i feddygon teulu drefnu apwyntiadau yn syth mewn system gymunedol ar gyfer clinigwyr. Hefyd, gall cleifion gysylltu ag amrywiaeth o glinigwyr yn uniongyrchol yn hytrach na chysylltu â meddyg teulu yn gyntaf, e.e. awdiolegwyr, ffisiotherapyddion, fferyllwyr, podiatryddion.
- 97 Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi mai'r rhwystr mwyaf i ddatblygu'r modelau newydd hyn yw recriwtio a chadw digon o staff â'r profiad a'r cymwysterau addas. Mae'n ymgysylltu â mentrau ar y cyd er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau canfyddedig o ran recriwtio i ofal sylfaenol.

<sup>14</sup> Gwaith ar sianel y gwreiddyn

<sup>15</sup> Dannedd gosod

- 98 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gyflwyno rhaglen datblygu rheolwyr practis a rhaglen nyrsys/ymarferwyr practis. Mae hefyd wedi sicrhau cyfalaf benthyciad ychwanegol i sefydlu 'Academi' y Tu Allan i Oriau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu problemau sylweddol wrth gynnal lefelau staffio ar gyfer ei wasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau. Sefydlu academi yw un o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa.
- 99 Mae cwrs Prifysgol Abertawe ar gyfer cymdeithion meddygol wedi rhoi mwy o brofiad i hyfforddeion o ofal eilaidd na gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r brifysgol i sefydlu rhaglen interniaeth i gymdeithion meddygol a fydd yn rhoi mwy o brofiad o arbenigeddau ac arferion cymunedol lluosog. Er bod gan GIG Cymru fframwaith llywodraethu ar gyfer cyflogi cymdeithion meddygol, nid ydynt wedi'u rheoleiddio'n llawn hyd yn hyn gan sefydliad fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'n bwysig darparu goruchwyliaeth dda a gwerthuso'u heffaith yn barhaus.<sup>16</sup>
- 100 Mae'r Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol wedi cefnogi ac annog sefydliad Pen y Bont Health. Hwn yw'r ffederasiwn cyntaf o feddygon teulu yng Nghymru ac mae'n cynnwys clwstwr o chwe phractis meddygon teulu yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cynrychiolwyr o bob meddygfa yn ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd er mwyn darparu gwell gwasanaethau iechyd i gleifion, a hybu gwaith agosach ar draws y chwe phractis meddygon teulu yn y clwstwr.

## Goruchwyliaeth: Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau arweinyddiaeth cryf a goruchwyliaeth glir o glystyrau ond mae cyfyngiadau data yn effeithio ar brosesau monitro perfformiad a cheir lle i ganolbwyntio'n fwy ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd

### Mae'r Prif Weithredwr a'r Is-gadeirydd yn eiriolwyr cryf dros Fodel Gofal Sylfaenol Cymru a cheir goruchwyliaeth glir o glystyrau a chynaliadwyedd practisau meddygon teulu

- 101 I drawsnewid gofal sylfaenol, mae angen trefniadau eglur ac effeithiol ar fyrddau iechyd ar gyfer goruchwyllo ac uwch-arweinyddiaeth. Mae gan is-gadeiryddion y bwrdd iechyd gyfrifoldeb penodol i hyrwyddo materion gofal sylfaenol. Yn y Bwrdd Iechyd canfuwyd bod gan yr Is-gadeirydd a benodwyd yn ddiweddar ymrwymiad cryf i gryfhau gofal sylfaenol a chymunedol. Mae'n cydnabod yr her i glystyrau o ran cyflawni ar raddfa wrth drawsnewid gwasanaethau newydd, a'r anhawster sydd

<sup>16</sup> [www.gpone.wales.nhs.uk/opendoc/293958](http://www.gpone.wales.nhs.uk/opendoc/293958)

ynghlwm wrth symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. Hoffai weld y tîm gweithredol ac uwch reolwyr yn cael mwy o gyfle i ganolbwyntio'n benodol ar ofal sylfaenol.

- 102 Mae'r Prif Weithredwr a benodwyd yn ddiweddar wedi ymrwymo'n fawr i drawsnewidiad Model Gofal Sylfaenol Cymru. Ceir ychydig o amrywio o ran trefniadau rhwng byrddau iechyd yn y cyfrifoldebau ar lefel y swyddogion gweithredol dros ofal sylfaenol. Crëwyd Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd ym mis Awst 2015. Mae'n un o chwe uned cyflawni y Bwrdd Iechyd ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol y tu allan i'r ysbty. Ceir tîm cadarn yn yr Uned, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Gwasanaethau, y Pennaeth Gofal Sylfaenol, a Chyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol yr Uned. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau yn adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredu. Ceir sawl arweinydd arall yn y tîm sy'n canolbwyntio ar elfennau amrywiol darpariaeth gofal sylfaenol a chymunedol. Maent yn gweithio'n agos gyda rheolwyr adnoddau dynol, cynllunio, perfformiad a chyllid i gefnogi'r clystyrau a gweithredu eu cynlluniau.

## Ceir cydnabyddiaeth y bydd angen i'r Bwrdd ganolbwyntio'n fwy ar ofal sylfaenol, ac er bod dangosfwrdd o ddangosyddion yn ei gwneud yn bosibl i fonitro perfformiad gofal sylfaenol, mae wedi'i lesteirio gan anawsterau wrth gael y data perthnasol

- 103 Ar lefel y Bwrdd, mae'r tîm gweithredol yn darparu diweddariadau rheolaidd ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Ceir cydnabyddiaeth gyffredinol y dylai fod mwy o bwyslais ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd ac yn ei bwyllgorau. Fodd bynnag, mae prif bwyslais y Bwrdd ar adferiad ariannol a gofal eilaidd.
- 104 Nododd y Bwrdd Iechyd ei fod yn monitro perfformiad gofal sylfaenol ar nifer o fyrddau. Mae'r Bwrdd Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol yn cael adroddiad misol o'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol yr uned ac yn cytuno ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd.
- 105 Paratwir adroddiad adfer a chynaliadwyedd misol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a meddygol i'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Mae'n darparu crynodeb lefel uchel o'r sefyllfa ariannol, camau gweithredu, risgiau, tueddiadau'r gweithlu a dangosyddion y gweithlu. Caiff adroddiad cyllid ar wahân a manylach yr Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ei ystyried mewn Cyfarfodydd Adfer Ariannol.
- 106 Mae gwaith yn parhau yn yr Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol i lunio dangosfwrdd rhesymegol a chadarn i ddarparu sicrwydd i aelodau annibynnol Ansawdd a Diogelwch Cleifion mewn Gofal Sylfaenol. Er bod y dangosfwrdd presennol yn cynnwys 53 mesur, mae anawsterau sy'n ymwneud â chael data wedi cyfyngu i ba raddau y gellir ei ddiweddarau. Nid yw'r dangosfwrdd yn rhan o

brosesau'r Uned hyd yn hyn ac mae'n cael ei ddiweddarau â llaw hyd nes y gwneir penderfyniad ar ei ddyfodol.

- 107 Paratoir dogfen adolygu perfformiad bob chwarter ar gyfer yr Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ac fe'i cyflwynir yng nghyfarfodydd y tîm gweithredol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn adolygu'r Adroddiadau Perfformiad Integredig chwarterol a blynyddol ar gynnydd o ran Fframwaith Perfformiad a Chanlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r mesurau sy'n ymwneud â gofal sylfaenol yn cynnwys rhaglen imiwneiddio plant a brechiadau'r fflw, rhoi'r gorau i smygu, trefnu apwyntiadau meddygon teulu, gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, gofal deintyddol sylfaenol y GIG a dangosyddion rhagnodi. Fodd bynnag, prif bwyslais y fframwaith yw targedau gofal eilaidd. Yn ogystal â hyn, nid adroddir ar unrhyw ddangosyddion gofal sylfaenol amlwg ar y dangosfwrdd lefel uchel y mae'r Bwrdd yn ei weld.
- 108 Cyflwynir adroddiadau clystyrau unigol i Fwrdd yr Uned Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol ac wedyn cânt eu casglu mewn adroddiad ar gyfer fforymau amrywiol, gan gynnwys y Grŵp Datblygu Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol. Ni welwyd unrhyw adroddiadau gan feddygon teulu na staff gofal sylfaenol eraill am sut y mae clystyrau yn datblygu eu prosiectau.
- 109 Mae'r Uned yn llunio adroddiad chwarterol am gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol, a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar Ofal Sylfaenol i'r Bwrdd ym mis Medi 2018 ac mae'n disgrifio'r cyd-destun ar gyfer gweithredu a datblygu gwasanaethau a reolir yn uniongyrchol ac ar gontract. Mae'n cyd-fynd â'r Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol, ac mae'n darparu crynodeb o brif faterion a chyflawniadau'r flwyddyn honno. Caiff ei baratoi yng nghyd-destun Strategaeth Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd a gymeradwywyd ym mis Mai 2017.

## Mae clystyrau yn ystyried bod cymorth y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ar y cyfan er bod meddygon teulu yn ei chael yn anodd canolbwyntio ar gynllunio clystyrau

- 110 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried clystyrau yn ffordd o gyflawni ymreolaeth leol ar gyfer arweinyddiaeth, cydweithredu ac arloesi. Fodd bynnag, roedd ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r clystyrau wedi canfod safbwyntiau cymysg ynghylch yr angen am arwain clystyrau yn fwy effeithiol. Canfu'r ymchwiliad hefyd dystiolaeth o ddibyniaeth ar nifer bach o unigolion i gynnal clystyrau.
- 111 Mae **Arddangosyn 9** yn nodi cefndiroedd proffesiynol arweinwyr y clystyrau a'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ledled Cymru. Yn y Bwrdd Iechyd meddygon teulu yw arweinyddion yr un ar ddeg o glystyrau.



### Arddangosyn 9: cefndir proffesiynol arweinwyr y clystyrau

Mae'r tabl hwn yn darparu nifer yr arweinwyr clystyrau sy'n feddygon teulu a nifer yr arweinwyr clystyrau sy'n weithwyr proffesiynol eraill ym mhob Bwrdd Iechyd

|                        | Nifer yr arweinwyr<br>clystyrau:<br>Meddygon Teulu | Nifer yr arweinwyr<br>clystyrau:<br>gweithwyr<br>proffesiynol eraill | Cyfanswm y<br>clystyrau |
|------------------------|--|--|-------------------------|
| Abertawe Bro Morgannwg | 11   | 0  | 11                      |
| Aneurin Bevan          | 9  | 3  | 12                      |
| Betsi Cadwaladr        | 12   | 2  | 14                      |
| Cwm Taf                | 5  | 6  | 8                       |
| Caerdydd a'r Fro       | 9  | 0  | 9                       |
| Hywel Dda              | 6  | 1  | 7                       |
| Powys                  | 2  | 1  | 3                       |
| Cymru                  | 54   | 13   | 64                      |

Sylwer: Er mai 64 clwstwr sydd i gyd, ceir 67 o arweinwyr clwstwr oherwydd bod meddyg teulu a gweithwyr proffesiynol eraill yn arweinwyr clwstwr yng Nghwm Taf.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ffurflenni Hunanasesu Byrddau Iechyd.

- 112 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, trwy'r Hyb Gofal Sylfaenol, wedi datblygu Rhaglen Arweinwyr Hyderus, ac mae 40 o arweinwyr clwstwr wedi manteisio ar y rhaglen. Mae'r arweinwyr clwstwr yn parhau i rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd trwy gymuned o arfer. Cefnogir arweinwyr clwstwr trwy sesiynau unigol rheolaidd â Chyfarwyddwr Clinigol yr Ardal, yn ogystal â thrwy raglenni hyfforddi fel y Rhaglen Arweinwyr Hyderus.
- 113 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried bod arweinyddiaeth glinigol yn y clystyrau yn flaenoriaeth allweddol i sicrhau y gall clystyrau gyflawni eu swyddogaethau. Canfu arweinwyr ein clystyrau fod y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi bod ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus. Roedd y mwyafrif o'r rhain naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y cwrs wedi'u helpu i wella fel arweinwyr clwstwr. Cytunodd y mwyafrif hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn rhoi cymorth effeithiol iddyn nhw gyflawni eu swyddogaeth datblygu clwstwr. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod ganddynt ddigon o amser yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar ddatblygu clwstwr.

- 114 Edrychwyd ar sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth i glystyrau wrth ddatblygu asesiadau o anghenion lleol a chynlluniau clwstwr. Er bod y rhan fwyaf o glystyrau yn dweud eu bod wedi cynnal asesiad o anghenion, dywedodd rhai nad oeddent wedi cael cymorth i ddatblygu un. Dim ond dau glwstwr oedd yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn gwrandio arnynt wrth ddatblygu blaenoriaethau gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd Iechyd.


## Perfformiad a monitro: Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud rhywfaint o gynnydd wrth gyflawni ei gynlluniau ond nid yw bob amser yn perfformio'n gryf ac mae nifer o heriau anodd yn parhau

### Mae perfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd cystal â chyfartaledd Cymru neu'n is na'r cyfartaledd mewn nifer o fesurau allweddol

- 115 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn crynhoi perfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â Mesurau Perfformiad a Chanlyniadau Llywodraeth Cymru, yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn Adroddiad Perfformiad Integredig misol y Bwrdd Iechyd.
- 116 Mae **Arddangosyn 10** <sup>17</sup> yn dangos bod cyfradd imiwneiddio plant y Bwrdd Iechyd yn debyg i gyfartaledd Cymru ar gyfer un brechlyn ac ychydig yn uwch ar gyfer un arall. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar y targed ar gyfer y brechlynnau '5 mewn 1', mae'n dal i fod o dan y targed ar gyfer y brechlyn MMR, yn yr un modd â phob bwrdd Iechyd arall.

<sup>17</sup> [www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=54124](http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=54124)

## Arddangosyn 10: cyfraddau imiwneiddio plant ar gyfer y chwarter o fis Ionawr i fis Mawrth 2018



Sylwer: mae'r brechlyn '5 mewn 1' yn amddiffyn rhag difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio a haint hib. Mae'r MMR yn amddiffyn rhag heintiau y frech goch, clwy'r pennau a rwbela. Mae'r canlyniadau hyn ar gyfer plant sy'n byw yn ardal y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2018 ac a gafodd eu pumed pen-blwydd yn ystod y chwarter o 1 Ionawr hyd 31 Mawrth 2018.


Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

117 Ar gyfer oedolion, argymhellir brechiadau fflw i bobl 65 oed ac yn hŷn, yn ogystal â phobl â ffactorau risg eraill fel asthma. Y targed ar gyfer y ddau grŵp yw bod 75% o'r poblogaethau hynny yn cael y brechiad bob blwyddyn. Mae **Arddangosyn 11** yn dangos bod cyfradd y brechiadau fflw yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer cleifion 65 oed neu'n hŷn (68.2%) ychydig yn is na sefyllfa Cymru gyfan. Roedd y gyfradd ym mis Medi 2017 3% yn uwch nag ym mis Medi 2014. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd yn y cyfnod yn y canol ac nid yw erioed wedi cyrraedd y targed<sup>18</sup>.

18

[www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/CommunitySurveillanceDocs.nsf/\(\\$All\)/AC9851271F3475FD80258160004CF724/\\$File/Seasonal%20influenza%20in%20Wales%20201617\\_v1a.pdf](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/CommunitySurveillanceDocs.nsf/($All)/AC9851271F3475FD80258160004CF724/$File/Seasonal%20influenza%20in%20Wales%20201617_v1a.pdf)


Arddangosyn 11: tueddiadau yn nifer y bobl sy'n cael y brechiad ffliw o 2014-15 i 2017-18: Nifer y cleifion 65 oed neu'n hŷn



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

118 Mae **Arddangosyn 12** yn dangos mai cyfradd y brechiadau fflw ar gyfer cleifion sy'n iau na 65 oed sydd â risg o'r fflw ym mis Medi 2107 oedd 46.7%, sy'n is na sefyllfa Cymru gyfan.


**Arddangosyn 12: tueddiadau yn nifer y bobl sy'n cael y brechiad fflw o 2014-15 i 2017-18: Nifer y cleifion sy'n iau na 65 oed sydd â risg**



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

119 Mae **Arddangosyn 13** yn dangos mai canran y practisau meddygon teulu a arhosodd ar agor trwy'r dydd<sup>19</sup> yn 2017 oedd 49%. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 52%.

**Arddangosyn 13: canran y practisau sydd ar agor am 100% neu fwy o'u horiau craidd wythnosol, fesul Bwrdd Iechyd, 2017**




Sylwer: Cyfanswm yr oriau craidd wythnosol yw 52 awr a 30 munud.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

<sup>19</sup> **Diffiniad:** Practisau sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 08:00 a 18:30 bob dydd, heb gau amser cinio (fel y nodir yn y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol).

120 Mae **Arddangosyn 14** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio'n is na chyfartaledd Cymru ym mhob agwedd sy'n ymwneud â darpariaeth apwyntiadau meddygon teulu ar wahanol amserau'r dydd.

**Arddangosyn 14: canran practisau Bwrdd Iechyd sydd ar agor am 100% neu fwy o'u horiau craidd wythnosol, o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, 2017**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

121 Ceir targed i leihau'r defnydd o gyffuriau lladd poen fel ibuprofen, a elwir yn gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd, i leihau'r risg o gymhlethdodau. Mae **Arddangosyn 15** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gostyngiad o 12% yn y lefelau rhagnodi yn y 12 mis blaenorol. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd y targed hyd yn hyn, ond mae wedi cyflawni'r amcan i wella bob blwyddyn.

Arddangosyn 15: Iefelau rhagnodi cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd mewn gofal sylfaenol, chwarter un 2016-17 a 2017-18.

Lefelau rhagnodi ar gyfartaledd dyddiol am bob 1,000 o STAR-PU (uned presgripsiynu grŵp therapiwtig penodol cysylltiedig ag oedran-rhyw).




Ffynhonnell: [Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru](#)

122 Mae **Arddangosyn 16** yn dangos canran y boblogaeth a ddefnyddiodd ofal deintyddol sylfaenol y GIG yn rheolaidd yn ystod y 24 mis blaenorol ar 30 Medi 2017. Y targed yw gwella'n flynyddol, ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni hyn. Fodd bynnag, mae ganddo'r ganran uchaf o fynediad yng Nghymru (62.4%) sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd (54.9%).



Arddangosyn 16: canran y cleifion a gafodd triniaeth mewn practis deintyddol y GIG yn ystod y 24 mis blaenorol



Targed = gwelliant blynyddol

Ffynhonnell: Ffurflenni gweithgarwch deintyddol, Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud rhywfaint o gynnydd wrth gyflawni ei gynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol, ond mae angen iddo fynd i'r afael â heriau anodd

123 Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd beth oedd y prif rwystrau i drawsnewid gofal sylfaenol. Mae Arddangosyn 17 yn dangos bod pryderon ynghylch y cyflenwad is o feddygon a'r anawsterau wrth sefydlu modelau newydd o ofal i ymdrin â'r sefyllfa.

## Arddangosyn 17: barn yr Is-adran ar y prif rwystrau i drawsnewid gofal sylfaenol

| <b>Rhwystrau</b>  | <b>Yr hyn y mae angen ei wneud i ddileu'r rhwystrau</b>  |
|---|--|
| Prinder pobl â'r profiad a'r cymwysterau priodol sydd ar gael yn lleol/cenedlaethol i gynnal modelau gwasanaeth presennol neu – yn bwysicach – i gefnogi gweithrediad modelau gwasanaeth newydd   | Gwaith amlasiantaethol cenedlaethol yn ogystal â lleol gyda chynllunwyr a chyflenwyr proffesiynol ac addysg gyffredinol i lunio rhaglenni i allu nodi a hyfforddi staff priodol. |
| Heriau cyflwyno modelau newydd o ofal yn y gymuned, a chynnal y gwasanaethau y byddant yn eu disodli yn y pen draw. Yn ei dro, mae'n anodd trosglwyddo adnoddau i ofal sylfaenol i ddilyn trosglwyddo gwasanaethau, sy'n gysylltiedig â chymhlethdod rheoli newidiadau system | Cyflwyno'r Grŵp Contract a Datblygu Llwybr a champau gweithredu parhaus i fynd i'r afael â materion sydd wedi arwain at statws presennol y Bwrdd Iechyd                          |
| Capasiti prin i ysgogi datblygiad gwasanaethau newydd neu amgen mewn gofal sylfaenol ac yn y brif ffrwd   | Cyflwyno'r Grŵp Contract a Datblygu Llwybr, yn arbennig llwybrau clinigol clir ar draws strwythurau'r uned   |
| Materion amseru rhwng cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi (e.e. Gwasanaethau Gwell a Chyfeiriedig) a chyhoeddiadau ynghylch y cyllid cysylltiedig sydd ar gael i'w gweithredu  | Cynllunio tymor hirach a chylchoedd cyllid cysylltiedig  |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ffurflenni Hunanasesu Byrddau Iechyd.

- 124 Gofynnwyd am farn arweinwyr y clystyrau ar llwyddiannau clystyrau/rhwydweithiau a'r prif heriau i ofal sylfaenol yn eu hardal. Mae **Arddangosyn 18** yn dangos bod datblygu nifer o wasanaethau clwstwr ymysg y llwyddiannau.

**Arddangosyn 18: arolwg o arweinwyr clwstwr: llwyddiannau**

**Llwyddiannau**

---

Darparu gwasanaethau clwstwr, gan gynnwys therapi ymddygiad gwybyddol; ffisiotherapi mynediad agored; sgrinio cyn diabetes; gwasanaethau cwnsela plant a phobl ifanc/y glasoed yn y clwstwr; a phodiatreg mynediad agored.

Datblygu swyddogaeth y fferylllydd cymunedol.

Gwella cyfraddau brechu a sgrinio.

Yr her yn sgil cyfarfodydd clwstwr rheolaidd o ran gweithgareddau clwstwr.

Uno practisau cyfagos.

Gweithredu system newydd o ofalu am glwyfau a thrafod tâl cydnabyddiaeth i feddygon teulu am y gwasanaeth.

Ffurio'r Ffederasiwn Meddygon Teulu cyntaf yng Nghymru – Pen y Bont Health Limited

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018

- 125 Yn y Bwrdd Iechyd, cododd arweinwyr clystyrau nifer o heriau, fel y dangosir yn **Arddangosyn 19**.

## Arddangosyn 19: arolwg arweinwyr clystyrau: heriau

### Heriau

---

Baich llwyth gwaith cynyddol yn herio cynaliadwyedd gofal sylfaenol:

- symud gwasanaethau gofal eilaidd i ofal sylfaenol heb drosglwyddo'r adnoddau cyfatebol;
- poblogaeth yn heneiddio, sy'n arwain at alw cynyddol ar wasanaethau gofal sylfaenol ac anghenion gofal iechyd unigol cynyddol gymhleth;
- gofal sylfaenol yn faes dympio ar gyfer asiantaethau allanol; a
- phwysau ar bractisau a chostau indemniad cynyddol yn arwain at effaith negyddol ar iechyd a morâl staff, gan arwain at fwy o bobl yn ymddeol yn gynnar ac yn ei gwneud yn anoddach recriwtio staff newydd.

Diffyg uwch arweinwyr a chynrychiolaeth ar gyfer gofal sylfaenol ar lefelau uchaf y Bwrdd Iechyd:

- ni chaiff materion gofal sylfaenol eu hybu ar bwyllgorau allweddol y Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd;
- prin yw'r dylanwad sydd gan Arweinwyr Rhwydwaith clwstwr yn y Bwrdd Iechyd; a
- diffyg cyllid i gyflwyno prosiectau treialu a werthuswyd yn llawn yn y brif ffrwd yn golygu cynnydd yn araf o ran sefydlu Model Gofal Sylfaenol Cymru.

Mae angen i unigolion gymryd mwy o gyfrifoldeb am reoli eu hiechyd eu hunain yn fwy effeithiol er mwyn cyflawni gwell canlyniadau iechyd hirdymor a lleihau'r pwysau ar y system.

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018

# Atodiad 1

## Dulliau

| Dull  | Manylion  |
|---|---|
| Hunanasesiad y Bwrdd Iechyd                               | Yr hunanasesiad oedd y prif ffynhonnell o ddata ar lefel gorfforaethol y gofynnwyd amdano gan y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2018. Roedd yr offer hwn hefyd yn cynnwys cais am ddogfen.   |
| Arolwg o arweinwyr clystyrau                              | Anfonwyd arolwg ar-lein i'r holl arweinwyr clystyrau yng Nghymru ym mis Ebrill 2018. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 63% (45/67). Cyfradd ymateb y Bwrdd Iechyd oedd 67% o arweinwyr clystyrau.   |
| Cyfweliadau   | Cyfwelwyd â nifer o aelodau staff, gan gynnwys y canlynol sy'n gyfrifol am ofal sylfaenol: <ul style="list-style-type: none"><li>• Is-gadeirydd</li><li>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am ofal sylfaenol</li><li>• Pennaeth Gofal Sylfaenol</li><li>• Cyfarwyddwr Meddygol</li><li>• Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol</li><li>• Cyfarwyddwr Cyllid</li><li>• Cyfarwyddwr Gweithlu</li><li>• Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad</li><li>• Rheolwyr Gweithredu</li><li>• Cynrychiolydd y Cyngor Iechyd Cymunedol Lleol</li></ul> |
| Adolygwyd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd | Adolygwyd cynllun tymor canolig y Bwrdd Iechyd i asesu faint o ystyriaeth a roddir i ofal sylfaenol.  |
| Defnyddio data presennol                                  | Defnyddiwyd ffynonellau data presennol pan oedd hynny'n bosibl, fel ystadegau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.  |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad  | Canlyniad/budd a fwriedir   | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr   | Dyddiad cyflawni | Swyddog â chyfrifoldeb   |
|-----|---|---|----------------------------------|------------------------------|---|------------------|--|
| A1  | Datblygu dadansoddiad ariannol manwl o gost i gefnogi cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy a nodi sut y bydd yn ariannu unrhyw newidiadau a gynlluniwyd. | Egluro sut y gellir cyflawni cynlluniau a darparu sylfaen ar gyfer rheoli disgwyliadau. | Ydy                              | Ydy                          | <p>Mae cynllun tymor canolig integredig 2019-2022 yn casglu at ei gilydd yr holl gynlluniau tymor byr a chanolig sydd wedi'u cefnogi gan gynlluniau ariannol a fydd yn adlewyrchu datblygiad a thrawsnewidiad ym mhob maes o Wasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys costau cyllideb ac arbedion cysylltiedig y Cynllun Trawsnewid, yn ogystal â'r symud disgwylidiedig i'r adnoddau – pan fo gweithgareddau'n cael eu symud rhwng unedau o fewn PABM – yn unol â chylchlythyr Iechyd Cymru WHC 2018(25).</p> <p>Mae hyn yn ychwanegu at y systemau sydd eisoes ar waith ar gyfer rheolaeth ariannol, ac yn eu hategu.</p> | Ebrill 2019      | Partner Busnes Cyllid yr Uned / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad  | Canlyniad/budd a fwriedir                       | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr   | Dyddiad cyflawni   | Swyddog â chyfrifoldeb      |
|-----|---|---|----------------------------------|------------------------------|---|--|-----------------------------|
| A2a | Adolygu aeddfedrwydd cymharol clystyrau, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth ar gyfer clystyrau lle bo angen. | Cryfhau a thargeddu cymorth datblygu clystyrau. | Ydy                              | Ydy                          | <p>Ers cyhoeddi'r canllawiau cenedlaethol ar reoli clystyrau - mae gwaith wedi dechrau eisoes i wella'r cynlluniau clwstwr i gynnwys gweledigaeth tair blynedd a dadansoddiad ar gyfer pob clwstwr.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd pob cynllun clwstwr ar gyfer tair blynedd.</li> <li>2. Mae pob cynllun clwstwr wedi'i gytuno gan glystyrau a'r bwrdd iechyd.</li> <li>3. Mae pob cynllun clwstwr wedi'i gyhoeddi ar wefan GofalSylfaenolUN Cymru.</li> <li>4. Bydd pob cynllun clwstwr yn cynnwys nod strategol newydd. "I ddatblygu'r clwstwr yn strwythur ar gyfer cyflawni blaenoriaethau." Bydd y nod hwn yn defnyddio ac yn cyfeirio at wybodaeth leol sydd wedi'i nodi yn y Cynlluniau Clwstwr ac yn y Mesurau Gofal Sylfaenol.</li> <li>5. Mae clystyrau wedi cynnal dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) i nodi unrhyw rwystrau i gyflawni wrth ddatblygu'r clwstwr.</li> <li>6. Bydd y Timau Rheoli Gofal Sylfaenol yn casglu'r holl gynlluniau Clwstwr at ei</li> </ol> | <p>Tachwedd 2018<br/>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tachwedd 2018<br/>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tachwedd 2018<br/>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Ebrill 2019</p> | Penaethiaid Gofal Sylfaenol |

| Cyf | Argymhelliad   | Canlyniad/budd a fwriedir         | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr  | Dyddiad cyflawni   | Swyddog â chyfrifoldeb   |
|-----|--|-----------------------------------|----------------------------------|------------------------------|--|--|--|
|     |  |                                   |                                  |                              | <p>gilydd mewn un cynllun datblygu clystyrau cyffredinol ar gyfer BIPABM er mwyn i randdeiliaid allweddol yn y bwrdd iechyd a sefydliadau partner gytuno arno.</p> <p>7. Bydd Datblygiad Clwstwr yn cael ei gynllunio yn rhan o Raglen Trawsnewid Cwm Tawe a'r cyflwyniad dilynol.</p> <p>8. Bydd Rheolwr Datblygu Clystyrau yn gweithio gyda thîm Datblygiad Sefydliadol BIPABM a'r Hyb Gofal Sylfaenol ac Arloesi Cenedlaethol i nodi adnoddau ar gyfer datblygu clystyrau ac yn cynnwys y rhain yng nghynllun clwstwr BIPABM.</p> <p>9. Bydd cyflwyniad y Rhaglen Trawsnewid i 7 clwstwr yn cynnwys cyfeiriad penodol at asesiadau a chynlluniau datblygu clystyrau erbyn 31 Mawrth 2019.</p> | <p>Tachwedd 2018 – Ionawr 2021</p> <p>Yn parhau</p> <p>Mawrth 2019</p> |  |
| A2b | Sicrhau bod arweinwyr yr holl glystyrau yn mynd ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus. | Cryfhau arweinyddiaeth clystyrau. | Ydy                              | Ydy                          | <p>1. Mae pob arweinydd clwstwr wedi bod ar y cwrs/academi arweinwyr hyderus Cymru, ac wedi cael cymorth ychwanegol gan y Bwrdd Iechyd i alluogi hyn i ddigwydd. Yn y dyfodol, cytunir y bydd unrhyw arweinydd clwstwr newydd yn cael ei annog a'i</p>   | Wedi'i gwblhau   | Cyfarwyddwr Clinigol Rhanbarthol/ Cyfarwyddwr Meddygol yr Uned |



| Cyf | Argymhelliad   | Canlyniad/budd a fwriedir   | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr  | Dyddiad cyflawni | Swyddog â chyfrifoldeb   |
|-----|--|---|----------------------------------|------------------------------|--|------------------|--|
|     |  |   |                                  |                              | <p>gefnogi i fynd ar gyrsiau yn y dyfodol.</p> <p>2. Bydd y Tîm Gofal Sylfaenol yn cefnogi Rheolwyr Practis cymwys i fynd ar raglen Rheolwr Practis Hyderus. Bydd y Tîm Gofal Sylfaenol wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer y Rhaglen Rheolwr Practis Hyderus erbyn 11 Ionawr 2019.</p>   | Chwefror 2019    | Penaethiaid Gofal Sylfaenol  |
| A3a | Cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei fuddsoddiad a'i ddefnydd adnoddau presennol mewn gofal sylfaenol a chymunedol.   | Sefydlu llinell sylfaen i'w defnyddio i fesur symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol. | Ydy                              | Ydy                          | Gweler yr ateb i A1  | Ebrill 2019      | Partner Busnes Cyllid yr Uned / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid   |
| A3b | Adolygu ac adrodd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol, i asesu cynnydd ers y llinell sylfaen a monitro i ba raddau mae'n llwyddo symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. | Deall y cynnydd a wnaed o ran symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol.           | Ydy                              | Ydy                          | Mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu dichonoldeb cynnwys dadansoddiad o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol yn y nodiadau i'r Cyfrifon pan fo hyn yn bosibl o fewn fformat rhagnodedig y cyfrifon a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Hefyd bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio darparu rhagor o fanylion yn dadansoddi symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol yn yr wybodaeth am dueddiadau gwariant hirdymor a nodir yn adran yr adroddiad atebolrwydd yn adroddiad blynyddol y bwrdd Iechyd. | Gorffennaf 2019  | Partner Busnes Cyllid yr Uned / Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol |

| Cyf | Argymhelliad  | Canlyniad/budd a fwriedir  | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr   | Dyddiad cyflawni            | Swyddog â chyfrifoldeb  |
|-----|---|--|----------------------------------|------------------------------|---|-----------------------------|---|
|     |   |  |                                  |                              | Yn ogystal â hyn, caiff ei adrodd yn adroddiad blynyddol yr Uned.   |                             |   |
| A4  | Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer codi proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd lechyd. Gallai camau gweithredu gynnwys sicrhau bod gofal sylfaenol yn eitem sefydlog ar agendâu'r Bwrdd, a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar ofal sylfaenol. | Gwella dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol                   | Ydy                              | Ydy                          | Mae'r Bwrdd wedi cynnal sesiynau datblygu ar ofal sylfaenol ym mis Ebrill a mis Awst 2018.<br><br>Mae cyflwyniadau wedi'u gwneud i'r Bwrdd lechyd ar gyfer Adroddiad Blynyddol Gofal Sylfaenol PABM, Mesurau Gofal Sylfaenol a newidiadau arferion yn 2018.<br><br>Caiff cynllun gweithredu ei lunio ar gyfer 2019/2020 a'i gytuno â'r is-gadeirydd, y Prif Weithredwr ac ysgrifennydd y bwrdd. | Gorffennaf 2019             | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol / Prif Swyddog Gweithredu |
| A5a | Sicrhau bod cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a'r pwyllgor yn ymdrin yn ddigonol â gofal sylfaenol.   | Gwella dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol                   | Ydy                              | Ydy                          | Fel yr uchod  | Ionawr 2019 hyd Ebrill 2020 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol / Prif Swyddog Gweithredu |
| A5b | Sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu digon o sylw ar gynnydd a chyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well profiadau a chanlyniadau ar gyfer cleifion                 | Codi ymwybyddiaeth y Bwrdd o effaith trawsnewid gofal sylfaenol ar gleifion. | Ydy                              | Ydy                          | Fel yr uchod  | Ionawr 2019 hyd Ebrill 2020 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol / Prif Swyddog Gweithredu |

| Cyf | Argymhelliad  | Canlyniad/budd a fwriedir  | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr   | Dyddiad cyflawni   | Swyddog â chyfrifoldeb  |
|-----|---|--|----------------------------------|------------------------------|---|--|---|
| A6  | Dylai'r Bwrdd lechyd archwilio a gweithredu ffyrdd o ehangu ei ddefnydd o'r wybodaeth bresennol am y gweithlu, ac archwilio sut y gall gasglu a defnyddio data gweithlu ychwanegol am y tîm gofal sylfaenol ehangach. | Parhau i ddatblygu dealltwriaeth y Bwrdd lechyd am y gweithlu gofal sylfaenol cyfan i gefnogi prosesau cynllunio'r gweithlu. | Ydy                              | Ydy                          | <p>Mae'r Bwrdd lechyd eisoes yn casglu gwybodaeth am weithlu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac yn cyflwyno ffurflen flynyddol i Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn casglu gwybodaeth am y gweithlu trwy'r ffurflen monitro Contractau blynyddol.</p> <p>Nid oes yn rhaid i bractisau gyflwyno cynlluniau datblygu practis mwyach (yn dilyn trafodaethau cenedlaethol) sy'n cynnwys manylion am y gweithlu.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae Timau Gofal Sylfaenol yn cysylltu â rheolwyr practis yn fisol i gofnodi nifer y swyddi gwag mewn practisau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Caiff hyn ei drafod â'r Pwyllgor Meddygol Lleol.</li> <li>2. Bydd Timau Gofal Sylfaenol yn cyflwyno data swyddi gwag i'r tîm Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, gan gynnwys ffrwd gwaith recriwtio a chadw gweithlu meddygol.</li> <li>3. Caiff data gweithlu eu casglu yn rhan o bob asesiad cais cynaliadwyedd y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Bydd Data Cynaliadwyedd am y gweithlu yn cael eu cyflwyno i dîm Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol BIPABM.</li> <li>4. Bydd yr Uned Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn archwilio ffyrdd</li> </ol> | <p>Wedi'i gwblhau (cynhaliwyd trafodaeth y Pwyllgor Meddygol Lleol yn haf 2018)</p> <p>Gorffennaf 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p> | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol/Pennaeth Gwasanaethau |

| Cyf | Argymhelliad  | Canlyniad/budd a fwriedir   | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr  | Dyddiad cyflawni                               | Swyddog â chyfrifoldeb                                 |
|-----|---|---|----------------------------------|------------------------------|--|--|--|
|     |   |   |                                  |                              | o gasglu data gweithlu gan y tîm Gofal Sylfaenol ehangach ac yn ceisio cytundeb gan y cyrff proffesiynol perthnasol.   |  |  |
| A7a | Gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, darparu tystiolaeth o ganlyniadau buddiol a llywio penderfyniadau ynghylch ehangu'r modelau hyn. | Sefydlu sail dystiolaeth gadarn o fuddion er mwyn helpu i lywio prosesau gwneud penderfyniadau. | Ydy                              | Ydy                          | <ol style="list-style-type: none"> <li>Mae Cyfarwyddwr Meddygol yr Uned wedi darparu Fframwaith gwerthuso i arweinwyr Clystyrau (defnyddiwyd hyn i asesu prosiectau Ysgogi Arloesi) a bu cynnydd sylweddol wrth i glystyrau werthuso prosiectau blaenoriaeth wedi'u cefnogi gan y bwrdd iechyd. Mae hyn wedi cynnwys gweithio ar y cyd â 1000 bywyd, Prifysgol Abertawe a Thîm Iechyd Cyhoeddus Cymru a CARP.</li> <li>Mae templed Grŵp Buddsoddiad a Buddion BIPABM ar gyfer achosion busnes wedi'i ddsbarthu i arweinwyr Clystyrau a Rheolwyr Datblygu Clystyrau, i atgyfnerthu'r data sydd eu hangen ar gyfer gwerthuso effeithiol (gan gynnwys PROMS a PREMS). Bydd arweinwyr clystyrau yn cyflwyno unrhyw achos dros gyflwyno prosiectau yn y brif ffrwd trwy ddefnyddio Templed Grŵp Buddsoddiad a Buddion BIPABM sydd wedi'i gymeradwyo.</li> </ol> | Wedi'i gwblhau haf 2018<br><br>Gorffennaf 2019 | Pennaeth Gofal Sylfaenol/ Cyfarwyddwr Meddygol yr Uned |

| Cyf | Argymhelliad   | Canlyniad/budd a fwriedir                               | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr   | Dyddiad cyflawni  | Swyddog â chyfrifoldeb  |
|-----|--|---|----------------------------------|------------------------------|---|---|---|
|     |  |   |                                  |                              | 3. Caiff fframwaith cyfunol ei ddatblygu i'w ddefnyddio mewn modd cyson ar gyfer prosiectau ac sy'n briodol ar gyfer uwchraddio. Caiff hyn ei gyfochri â'r fframwaith <i>Balancing the System</i> . Caiff y Fframwaith hwn ei gytuno gan arweinwyr Clystyrau a'r Bwrdd Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol.   | Gorffennaf 2019   |   |
| A7b | Casglu gwerthusiadau o'r ffyrdd newydd o weithio mewn man canolog a rhannu'r prif negeseuon ym mhob clwstwr. | Sefydlu dull clir a chyson o rannu negeseuon allweddol. | Ydy                              | Ydy                          | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Defnyddir cyfarfodydd arweinwyr clystyrau i drafod gwerthusiadau prosiectau clwstwr, ac mae swyddogion gweithredol yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.</li> <li>2. Ym mhob cyfarfod yr arweinwyr clystyrau (a gynhelir bob dau fis) caiff eitem agenda ei neilltuo er mwyn i arweinwyr clystyrau rannu gwerthusiadau llwyddiannus.</li> <li>3. Caiff casgliad o brosiectau a'u gwerthusiadau ei lunio a'i ddiweddarau'n rheolaidd gan reolwyr datblygu clystyrau a'i rannu â fforymau offthalmeg, deintyddiaeth a fferylliaeth. Bydd timau Gofal Sylfaenol yn rhannu â'r fforymau erbyn diwedd mis Mawrth 2019.</li> </ol> | <p>Wedi'i gwblhau haf 2018</p> <p>Yn dechrau mis Ionawr 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p> | Penaethiaid Gofal Sylfaenol/ Cyfarwyddwr Clinigol Rhanbarthol |

| Cyf | Argymhelliad   | Canlyniad/budd a fwriedir                                   | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr   | Dyddiad cyflawni              | Swyddog â chyfrifoldeb                                      |
|-----|--|---|----------------------------------|------------------------------|---|-------------------------------|---|
| A7c | Yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, dechrau cyllido modelau newydd o gyllid prif ffrwd yn hytrach nag o'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol. | I helpu i sicrhau dyfodol hirdymor y modelau newydd o ofal. | Ydy                              | Ydy                          | Caiff achosion busnes ar gyfer cyflwyno Prosiectau Clwstwr yn y brif ffrwd eu cyflwyno i'r Grŵp Buddsoddiad a Buddion trwy ddefnyddio'r templed ffurfiol. | Gweler A7b – cam gweithredu 2 | Partner Busnes Cyllid yr Uned / Penaethiaid Gofal Sylfaenol |



Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)